


# Adroddiad Blynyddol 2020

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Sut ydym yn cadw cleifion yn ddiogel | 1 |
| Ein hadolygiad perfformiad | 2 |
| Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 3 |
| Ymateb i'r pandemig | 5 |
| Symud ein strategaeth 2018-20 yn ei blaen | 20 |
| Ein strategaeth gorfforaethol newydd | 48 |
| Buddsoddi yn ein pobl | 50 |
| Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 52 |
| Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol | 55 |
| Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli | 56 |
| Adolygiad ariannol 2020 | 67 |
| Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio 2020 | 73 |
| Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr CMC | 79 |
| Cyfrifon 2020 | 83 |
| Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio | 116 |


# Am yr adroddiad hwn

Mae'n hymddiriedolwyr yn cyflwyno'r datganiadau ariannol a'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2020.

Maent yn cadarnhau eu bod wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd i'r cyhoedd wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion; a'u bod wedi ystyried y canllawiau hyn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau; neu wrth wneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bob amser ein bod wedi gweithredu er budd y cyhoedd; a bod y gweithgareddau fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn a'r cyfrifon hyn yn bodloni'r gofynion o ran budd y cyhoedd yn llawn, a'u bod yn cefnogi ein diben elusennol.

# Amdanom ni

Ni yw rheolydd annibynnol meddygon yn y DU.  Ein rôl yw:

- diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol i feddygon
- goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU
- gweithredu pan fydd diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon mewn perygl.

# Sut ydym yn cadw cleifion yn ddiogel

Mae cadw cleifion yn ddiogel a diogelu hyder y cyhoedd mewn meddygon wrth wraidd ein holl waith.

- Rydym yn rheoli cofrestr feddygol y DU – Rydym yn archwilio manylion a chymwysterau pob meddyg cyn y gallant ymuno â'r gofrestr.  A byddwn yn holi ysgolion meddygol neu gyflogwyr blaenorol er mwyn darganfod a oes ganddynt unrhyw bryderon am allu y meddyg i wneud gwaith meddygol diogel.
- Rydym yn gosod y safonau ar gyfer meddygon – Mae'n safonau yn diffinio'r hyn sy'n gwneud meddyg da trwy bennu'r gwerthoedd proffesiynol, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan bob meddyg sy'n gweithio yn y DU.  Pan fyddwn yn datblygu ein safonau a'n harweiniad, byddwn yn ymgynghori gydag ystod eang o bobl, gan gynnwys cleifion, meddygon, cyflogwyr ac addysgwyr.
- Rydym yn goruchwylio pob cam mewn addysg a hyfforddiant meddygol – Rydym yn sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfaoedd, gan bennu'r canlyniadau y mae angen i raddedigion eu sicrhau a chymeradwyo cwricwla ar gyfer addysg ôl-raddedig.  Rydym yn pennu safonau addysgol ar draws y DU, ac yn monitro amgylcheddau hyfforddiant er mwyn galluogi dysgu diogel ac effeithiol.
- Rydym yn helpu i gynnal a gwella safonau trwy gyfrwng ailddilysu – Mae'n bwysig bod pob meddyg trwyddedig yn y DU yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau.  Mae ailddilysu yn rhan sylfaenol o lywodraethu clinigol ar gyfer meddygon.  Mae'n cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod meddygon yn y DU yn rhan o system a lywodraethir, sy'n archwilio eu haddasrwydd i wneud gwaith meddygol yn rheolaidd ac sy'n cynorthwyo eu datblygiad a'u gwelliant parhaus.  Yn ogystal, mae'n cynorthwyo gweithgarwch i adnabod a rheoli pryderon yn gynnar.
- Rydym yn ymchwilio i bryderon sy'n peryglu cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon, ac yn gweithredu yn eu cylch – Pan fynegir pryder i ni, byddwn yn asesu a yw'n bodloni ein trothwy er mwyn ymchwilio iddo.  Os ydyw, byddwn yn ymchwilio, ac ar ddiwedd yr ymchwiliad, byddwn yn penderfynu pa gamau y mae angen i ni eu cymryd, gan gynnwys a ddylem gau'r achos, rhoi cyngor neu rybudd i'r meddyg, neu gytuno gyda'r meddyg y byddant yn cyfyngu eu gwaith, yn ailhyfforddi neu'n gweithio dan oruchwyliaeth.  Mewn rhai sefyllfaoedd, byddwn yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) am wrandawiad.

Mae MPTS yn paratoi adroddiad ar wahân i'r Senedd.  Gallwch ddarllen yr adroddiad diweddaraf ar ei wefan.

# Ein hadolygiad perfformiad

Bob blwyddyn, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn asesu ein perfformiad fel rheolydd ar draws ein pedair swyddogaeth graidd: addysg a hyfforddiant, cofrestru, arweiniad a safonau, ac addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

Cadarnhaodd ei asesiad blynyddol diweddaraf ein bod wedi llwyddo i fodloni ei 18 Safon Rheoleiddio Da yn ystod 2019/20. Mae hyn yn golygu ein bod yn sicrhau perfformiad o safon uchel fel rheolydd. Ac mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn ein holl waith at safonau megis:

- tryloywder
- diogelu'r cyhoedd
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- amseroldeb.

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr



Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi ein hatgoffa o werth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ein cymdeithas mewn ffordd amserol. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi dangos cryfder rhyfeddol, gan weithredu mewn ffordd dosturiol a phroffesiynol er mwyn darparu gofal i'r rhai y mae angen y gofal hwnnw arnynt.

Mae colled fawr ar ôl y gweithwyr gofal iechyd hynny a fu farw yn ystod y pandemig. Trwy gydol eu gyrfaoedd, roedd y clinigwyr hyn wedi cael effaith enfawr ar filoedd o gleifion. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu gwaith ac am eu hymrwymiad tan ddiwedd eu hoes.

2020 oedd y flwyddyn pan amlygwyd anghydraddoldebau iechyd sydd wedi bodoli ers amser hir. Mae effaith anghymesur y coronafeirws ar bobl hŷn, ar y rhai sydd ag anableddau ac ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, wedi ein hatgoffa o anghyfartalwch cymdeithasol sy'n bodoli eisoes.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n cenhadaeth i fod yn deg ac yn effeithiol, fel rheolydd ac fel cyflogwr.

Mae tystiolaeth yn dangos bod meddygon sy'n ymuno â gweithlu meddygol y DU o wledydd eraill a'r rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn dioddef gwahaniaethu ac anfantais o hyd. Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r materion y mae'r meddygon hyn yn eu hwynebu, megis cyrhaeddiad gwahaniaethol a chyfeiriadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol anghymesur gan gyflogwyr. O 2021, rydym wedi mabwysiadu dangosyddion perfformiad allweddol clir er mwyn ysgogi'r newidiadau yr ydym yn dymuno eu gweld.

Mae ymateb i'r pandemig wedi bod yn rhywbeth y mae ein gwaith wedi canolbwyntio'n fawr arno dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn gynnar yn 2020, rhoddom gofrestriad dros dro i dros 30,000 o ymarferwyr blaenorol, a chofrestrom tua 5,000 o fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf yn gynnar, er mwyn cynyddu cyflenwad y meddygon a oedd ar gael. Yn ogystal, mae rhai o'n cydweithwyr wedi ymuno â'r ymdrech, gan ddychwelyd i'r rheng flaen fel nyrsys mewn Unedau Therapi Dwys ac fel brechwyr.

Er mwyn darparu cymorth ymarferol i feddygon yn ystod y cyfnod heriol hwn, aethom ati i greu canolfan adnoddau ar-lein newydd am y coronafeirws, a ddefnyddiwyd dros 87,000 gwaith yn ystod 2020. Mae'n cynnwys gwybodaeth am themâu gan gynnwys ymgynghoriadau o bell, caniatâd, gweithio mewn ffordd ddiogel, ac iechyd a lles.

Er mwyn cynorthwyo'r ymateb i'r pandemig, gohiriom y broses ailddilysu ar gyfer dros 60,000 o feddygon, gan eu galluogi i ganolbwyntio'n llwyr ar waith cyflawni rheng flaen.

Yn ogystal, penderfynom oedi ymchwiliadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn achosion lle nad oedd unrhyw berygl uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, a chyhoeddom arweiniad er mwyn cynnig sicrwydd i feddygon y byddem yn ystyried y cyd-destun nas gwelwyd ei debyg erioed o'r blaen pan fyddai hynny'n briodol.

Roedd hi'n bwysig i ni ein bod yn gallu addasu'n gyflym er mwyn cynorthwyo

cynnydd hyfforddeion. Gweithiom gyda chyrff addysg statudol, cyfadrannau a cholegau brenhinol meddygol er mwyn caniatáu dulliau gweithredu mwy hyblyg tuag at asesu bod hyfforddeion yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol er mwyn sicrhau cynnydd.

Fel rhan o hyn, cymeradwyom ran-ddirymiadau i 77 o gwricwla a newidiadau i 108 o arholiadau yn ystod 2020. Yn ogystal, cymeradwyom tua 550 o leoliadau hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys ysbytai Nightingale ar gyfer hyfforddeion a adleolwyd yno, a datblygom arweiniad newydd ar gyfer arholiadau ôl-raddedig, ar y cyd â cholegau brenhinol meddygol, cyfadrannau a hyfforddeion.

Er gwaethaf yr amhariad byd-eang, roedd nifer o feddygon yr oeddent wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol, yn parhau i geisio cofrestriad i weithio yn y DU. Er mwyn ein galluogi i barhau i redeg ein profion Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB), aethom ati i ailgynllunio ein prosesau a'n hadeiladau yn unol â rheolau cadw pellter cymdeithasol. Ym mis Ionawr 2021, y DU oedd yr unig wlad yn y byd a oedd wedi parhau i gynnal ei harholiadau clinigol.

Rydym wedi parhau gyda'n huchelgais i newid pwyslais ein gwaith, o gamu i mewn pan fydd pethau wedi mynd o'i le, i gynorthwyo pob meddyg i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Fel y gall y rhai sy'n newydd i'r gwasanaeth ac sy'n dod o wledydd tramor ddeall rhai o'r gwahaniaethau y byddant yn dod ar eu traws efallai pan fyddant yn ymuno â'r gwasanaeth iechyd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein hyfforddiant ymsefydlu am ddim, sef Croeso i arfer yn y DU. Yn 2020, penderfynom newid hwn i fod yn wasanaeth rhith, a pharhaom i weld lefelau diddordeb uchel, wrth i 3,760 ei fynychu ar draws y flwyddyn.

Roedd gwella darpariaeth gofal diogel ac o ansawdd uchel, ac amgylcheddau lle y gall meddygon ffynnu, wedi parhau i fod yn flaenoriaeth graidd yn ystod 2020. Parhaom i gryfhau ein trefniadau cydweithio gyda chyd-reoleiddwyr ar faterion hollbwysig megis mamolaeth, gan weithio gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn datblygu platfform data a rennir, er mwyn caniatáu i ni adnabod tueddiadau yn gynnar, a nodi camau i ddatrys materion yn gyflymach.

Fel corff diogelwch cleifion, mae'n hanfodol hefyd bod gennym sianelau cyfathrebu agored gyda chleifion a'u teuluoedd. Rhwng 2018 a 2020, cynorthwyodd ein Gwasanaeth Cyswllt Cleifion (PLS) dros 1,200 o gleifion, perthnasau ac aelodau'r cyhoedd yr oeddent wedi mynegi pryderon am feddyg. Roedd dros 90% o'r bobl a holwyd am eu profiad o PLS wedi nodi y bu'r gwasanaeth o gymorth.

Er gwaethaf yr anawsterau, rydym wedi parhau i symud achosion trwy ein prosesau disgyblu, lle y rhoddwyd blaenoriaeth i faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion.

Er mwyn cryfhau ein cysylltiadau lleol, lansiom ein gwasanaeth Allgymorth newydd. Mae hwn yn dwyn ynghyd gwaith ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws y DU. Yn ystod 2020, ymgysylltodd cydweithwyr gyda dros 23,000 o feddygon, myfyrwyr meddygol a grwpiau allweddol eraill sydd â diddordeb ar draws y bedair genedl.

Bu'r ddirnadaeth o'r gweithgarwch ymgysylltu hwn yn hanfodol wrth lunio ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2021−2025.

Mae'r tirlun yr ydym yn gweithio ynddo, sy'n newid yn gyflym, yn golygu bod gofyn i ni barhau i fod yn ymatebol, yn effeithiol ac yn amserol. Rydym yn hyderus bod ein strategaeth yn ddigon cadarn a hyblyg i'n galluogi i ymateb i'r sialensiau sydd o'n blaenau, gan fanteisio ar y cyfleoedd a fydd yn codi wrth i'n systemau gofal iechyd ar draws y DU adfer yn dilyn y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn hynod o heriol hon, rydym ni a'r tîm uwch cyfan yn hynod o ddiolchgar i staff CMC am eu hymdrech enfawr. Maent wedi ymrwymo i fynd yr ail filltir er mwyn galluogi newid, gan gynorthwyo meddygon a diogelu cleifion.

**Bonesig Clare Marx**
Cadeirydd

**Charlie Massey**
Prif Weithredwr

# Ymateb i bandemig y coronafeirws

Ni welwyd blwyddyn debyg i 2020 erioed o'r blaen, a bu'n rhaid i systemau gofal iechyd y DU wynebu'r her fwyaf y maent erioed wedi'i hwynebu.

Yma, rydym yn disgrifio'r camau a gymrwyd gennym er mwyn cynorthwyo'r ymateb ar draws y DU i COVID-19, tan fis Rhagfyr 2020, yn ogystal â'r effaith arwyddocaol ac estynedig y mae'r pandemig wedi'i chael ar ein gweithrediadau.

O ymateb i effeithiau uniongyrchol y pandemig, i weithio trwy'r broses o adfer ein prosiectau a'n gweithrediadau, nid yw ein prif amcan wedi newid – sef cadw cleifion yn ddiogel a chynorthwyo meddygon.

## Ion

**28 Ionawr** – Ar ôl gweld nifer yr achosion COVID-19 yn cynyddu yn Tsieina, cyfarfu ein tîm rheoli digwyddiadau, gan weithredu ein cynllun ymateb i bandemig, yn ystod y cyfnod parodrwydd.

## Maw

**3 – 11 Mawrth** – Wrth i'r sefyllfa ddatblygu, cyhoeddom ddatganiadau ar y cyd gyda rheolyddion gofal iechyd eraill a phrif swyddogion meddygol y DU a'r pedwar corff addysg statudol, gan amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio, gan ystyried cyd-destun y pandemig.

**11 Mawrth** – Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd bod COVID-19 yn bandemig byd-eang.

**16 Mawrth** – Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU y dylai pobl 'aros gartref', cyhoeddom ganllawiau i'n staff ynghylch gweithio o bell.  Ar fore 17 Mawrth, llwyddodd tua 1,300 o gydweithwyr fewngofnodi o'u cartref.

**18 – 25 Mawrth** – Er mwyn lleddfu'r pwysau ar systemau gofal iechyd a gweithlu meddygol y DU, penderfynom ohirio trefniadau ailddilysu dros 60,000 o feddygon y byddai wedi bod gofyn iddynt ailddilysu rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021, am flwyddyn.  Gweler tudalen 16 am ragor o wybodaeth.

# Maw

**18 – 25 Mawrth** – Yn dilyn cyngor y llywodraeth ynghylch cadw pellter cymdeithasol, penderfynom ganslo'r holl brofion PLAB 2 rhwng 18 Mawrth a 29 Mehefin. Gweler tudalen 12 am ragor o wybodaeth am hyn a'r hyn yr ydym wedi'i wneud ers hynny er mwyn cynyddu nifer y meddygon sy'n gallu sefyll y prawf, gymaint ag y bo modd.

Penderfynom ohirio ein hymweliadau sicrhau ansawdd i ysgolion meddygol am y tro, ynghyd â'n prosesau monitro estynedig. Yn ogystal, penderfynom estyn y broses o gymeradwyo meddygon sy'n hyfforddwyr cymeradwy am 12 mis.

Penderfynom oedi'r gofyniad am wybodaeth gan gyflogwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ystod ymchwiliadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol am y tro, oni bai ein bod wedi nodi pryder uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion. Parhaom i symud ymchwiliadau yn eu blaen pan oedd modd, gan leihau'r oedi gymaint ag y bo modd ar ôl sicrhau cytundeb partïon perthnasol.

**26 Mawrth** – Gan ymateb i benderfyniad Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU i weithredu adran 18A y Ddeddf Meddygol, dechreuom roi cofrestriadau brys dros dro i feddygon yr oeddent wedi gadael y gofrestr neu yr oeddent wedi penderfynu ildio eu trwydded yn flaenorol. Erbyn 24 Mehefin, roeddem wedi adfer trwydded neu gofrestriad gyda thrwydded 34,837 o feddygon. Gweler tudalen 10 am ragor o wybodaeth.

# Ebr

**2 Ebrill** – Cyhoeddom ein canolfan arweiniad ar-lein am y coronafeirws, sef ffynhonnell gwybodaeth ac arweiniad ar-lein a ddatblygwyd yn benodol er mwyn cynorthwyo meddygon sy'n ymwneud â'r ymateb i'r pandemig. Erbyn diwedd 2020, roedd 376,078 o bobl wedi troi at y wybodaeth. Gweler tudalen 17 am ragor o wybodaeth.

**7 – 9 Ebrill** – Estynnom wahoddiad i fyfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn olaf i wneud cais am gofrestriad amodol yn gynharach yn ystod y flwyddyn nag arfer, fel y byddent yn gallu darparu cymorth pellach i'n gwasanaethau iechyd. Gweithiom gyda'r Cyngor Ysgolion Meddygol ac ysgolion meddygol er mwyn sicrhau bod deilliannau dysgu yn cael eu bodloni. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, dyfarnom gofrestriad amodol i 6,868 o raddedigion yn y DU. O blith y rhain, aeth 4,662 o raddedigion ymlaen i lenwi swyddi blwyddyn sylfaen interim 1 (FiY1) erbyn mis Gorffennaf – yr oedd 72% ohonynt mewn ardaloedd yr oeddent yn cynnwys achosion COVID-19 posibl neu a gadarnhawyd.

# Ebr

**21 Ebrill** – Gweithiom gyda chyrff addysg statudol y DU, colegau brenhinol meddygol a chyfadrannau er mwyn cymeradwyo newidiadau i gwricwla, er mwyn galluogi cymaint o hyfforddeion ag y bo modd i symud ymlaen i'r cam hyfforddiant nesaf, gan sicrhau na fyddai diogelwch cleifion yn cael ei beryglu. Gweler rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 13.

# Meh

**11 Mehefin** – Dechreuom gynnal ymweliadau sicrhau ansawdd ag ysgolion meddygol a gweithgareddau monitro estynedig ar-lein yn llwyr.

**15 Mehefin** – Aethom ati i deilwra ein harolwg Baromedr er mwyn cael gwybod mwy am brofiadau dydd-i-ddydd meddygon yn ystod y pandemig.

Ymatebodd dros 3,600 o feddygon i'r arolwg, sef prosiect ymchwil annibynnol yr ydym yn ei gomisiynu bob blwyddyn. Cyflwynom y canfyddiadau yn adroddiad *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU 2020*.

Gweithiom gyda chyflenwyr er mwyn ailgychwyn profion PLAB 1 lle'r oeddent wedi stopio, gan gydymffurfio gyda chanllawiau iechyd y cyhoedd yn y gwledydd lletyol. Roedd y mesurau'n dibynnu ar amgylchiadau lleol: yn anffodus, mewn rhai lleoliadau, bu'n rhaid canslo profion PLAB 1, yn unol â'r cyngor iechyd cyhoeddus yn y wlad letyol.

# Gor

**1 Gorffennaf** – Datblygom bolisi newydd a oedd yn cynorthwyo'r trefniadau er mwyn galluogi hyfforddeion i sefyll dros 100 o wahanol arholiadau mewn ffordd ddiogel. Yn ogystal, cynorthwyom Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol i ddatblygu arholiad hollol newydd, a gymeradwywyd ac a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf.

**13 Gorffennaf** – Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, ac ar ôl sicrhau cytundeb swyddogion cyfrifol, penderfynom ailgychwyn ymchwiliadau pan fo modd. Symudom yr ymchwiliadau hyn yn eu blaen trwy drafod gyda'r meddygon, y cyflogwyr, yr achwynwyr a'r sefydliadau cymorth ac amddiffyn meddygol yr oeddent yn cael eu heffeithio.

# Gor

**16 Gorffennaf** – Cyhoeddom fersiwn byrrach ac wedi'i dargedu o'n harolwg hyfforddiant cenedlaethol, a gaiff ei ryddhau ym mis Mawrth fel arfer. Roedd hyn wedi ein galluogi i sicrhau dirnadaeth hanfodol o amgylcheddau hyfforddiant ac arfer hyfforddi, gan gadw'r pwysau ar hyfforddeion a hyfforddwyr mor fach ag y bo modd. Gweler tudalen 29 am ragor o wybodaeth.

**22 Gorffennaf** – Dechreuodd ein timau Allgymorth ddarparu fersiwn ar-lein rhyngweithiol o Croeso i arfer yn y DU, y gallai meddygon o unrhyw le yn y byd ymuno ag ef. Gweler rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 18.

# Awst

**13 Awst** – Yn dilyn gwaith i wneud ein Canolfan Asesu Clinigol yn ddiogel, llwyddom i ailgychwyn arholiadau PLAB 2 ar gyfer meddygon y gohiriwyd eu profion. Gweler tudalen 12 i ddarllen mwy am yr addasiadau a wnaethom a'n cynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd PLAB yn y dyfodol gymaint ag y bo modd.

# Medi

**14 Medi** – Cyhoeddom arweiniad ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol, gan ddisgrifio sut i ystyried amgylchiadau eithriadol y pandemig wrth ymchwilio i bryderon am feddyg.

# Tach

**11 Tachwedd** – Cyhoeddom ddatganiad newydd ar y cyd â'n pedwar prif swyddog meddygol a Chyfarwyddwr Meddygol Cenedlaethol GIG Lloegr er mwyn cynorthwyo meddygon. Roedd y datganiad yn cydnabod yr amgylchiadau heriol yr oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gweithio ynddynt, gan amlinellu ein hymrwymiad i ystyried ffactorau sy'n berthnasol i'r amgylchedd pe byddai pryder yn cael ei godi gyda ni.

**17 Tachwedd** – Cynhaliom uwch-gynhadledd addysg gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y bedair wlad er mwyn myfyrio am y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Gyda'n gilydd, archwiliom y ffordd orau o fanteisio ar y cyfle i ymwreiddio newidiadau dros y tymor hwy ym maes addysg a hyfforddiant meddygol. Gweler tudalen 46 er mwyn darllen mwy am y diwygiadau yr ydym yn eu cwmpasu yn 2021.

**18 Tachwedd** – Cyhoeddom y byddem yn ymestyn y newidiadau a gyflwynom ym mis Ebrill a Gorffennaf er mwyn sicrhau y byddai cymaint o hyfforddeion ag y bo modd yn gallu symud yn eu blaen yn ystod y pandemig. Gweler tudalen 13 am ragor ynghylch hyn.

**25 Tachwedd** – Yn ystod cyfnod o bwysau aruthrol, cyhoeddom adnoddau lles ar gyfer meddygon sy'n gweithio mewn amgylchiadau heriol. Yn ogystal, cyhoeddom ein *Cynllun lles* er mwyn hyrwyddo a chynorthwyo iechyd a lles da ymhlith cydweithwyr.

**27 Tachwedd** – Bu ein hadroddiad blynyddol, *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU* yn canolbwyntio ar yr effeithiau amrywiol yr oedd anterth y pandemig yn ystod y gwanwyn wedi'u cael ar y proffesiwn ac ar ofal ar gyfer cleifion. Arweiniodd materion a oedd yn deillio o'r adroddiad, gan gynnwys anghydraddoldebau mewn profiadau sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, at ein penderfyniad i ategu ein galwad am weithredu er mwyn gwella amgylcheddau, diwylliannau ac arweinyddiaeth ym maes gofal iechyd. Gweler tudalen 28 am ragor o wybodaeth am yr adroddiad a'i ganfyddiadau.

# Rhag

**30 Tachwedd – 2 Rhagfyr** – Cynhaliom ein cynhadledd ar-lein gyntaf, *Darparu newid gyda'n gilydd*, gan ddwyn pobl ynghyd ar draws systemau gofal iechyd y DU i drafod materion yr oedd y proffesiwn meddygol a systemau gofal iechyd y DU yn eu hwynebu, yn ystod cyfnod arbennig o heriol.

**7 Rhagfyr** – Helpom i hyrwyddo astudiaeth genedlaethol UK-REACH ynghylch canlyniadau COVID-19 ymhlith pobl o wahanol gefndiroedd ethnig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

**8 Rhagfyr** – Anfonodd ein Cadeirydd, Bonesig Clare Marx, neges o ddiolch a chefnogaeth at bob meddyg, gan gydnabod eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u tosturi trwy gydol blwyddyn hynod o heriol.

# Rheoli'r gofrestr feddygol

## Rhoi cofrestriad brys dros dro

Am y tro cyntaf er mis Medi 1940, defnyddiom ein pwerau brys i roi cofrestriad brys dros dro i feddygon. 80 o flynyddoedd ar ôl y bu angen gwneud hynny yn ystod yr Ail Rhyfel Byd, ym mis Mawrth 2020, roedd ein gwasanaethau iechyd yn wynebu argyfwng dybryd unwaith eto.

Adferom drwydded neu gofrestriad gyda thrwydded 34,837 o feddygon. Dim ond meddygon yr oedd ganddynt gyfeiriad yn y DU ac yr oeddent wedi gadael y gofrestr neu ildio eu trwydded i wneud gwaith meddygol yn ystod y dair blynedd flaenorol, neu nad oedd ganddynt unrhyw gwynion, sancsiynau neu amodau ar eu cofrestriad, oedd yn cael eu cynnwys yn y trefniant hwn.

Ym mis Hydref, arolygom 26,439 o feddygon yr oedd ganddynt gofrestriad brys dros dro, er mwyn darganfod a oeddent yn defnyddio'u cofrestriad. Dywedodd dros 20% o'r meddygon a ymatebodd y byddent yn ystyried dychwelyd i'r proffesiwn yn barhaol. Ar 30 Rhagfyr 2020, roedd 25,344 o'r meddygon hyn ar y gofrestr feddygol o hyd.

Byddwn yn gweithio gyda'r proffesiwn a gyda phartneriaid er mwyn ymwreiddio'r hyn a ddysgwyd o'r fenter hon, er mwyn i ni allu parhau i gynorthwyo'r proffesiwn i ddarparu gofal da ar gyfer cleifion.

## Ehangu ein Canolfan Asesu Clinigol

Gyda dyfodiad y pandemig, bu'n rhaid i ni gau ein Canolfan Asesu Clinigol, lle y bydd meddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol yn sefyll arholiad PLAB 2 fel rhan o'u proses o ymgeisio am gofrestriad.

Bu'r ganolfan ar gau o fis Mawrth i fis Awst 2020, ac yn ystod y cyfnod hwn, llwyddom i ddatblygu mesurau er mwyn caniatáu arholiadau PLAB 2 dan drefniadau cadw pellter cymdeithasol.

Roeddem wrth ein bodd ein bod wedi gallu ailagor y ganolfan ac ailgychwyn yr arholiadau ym mis Awst, gan gynnig lle i 16 meddyg y dydd ar y dechrau. Cynyddwyd hyn i 32 meddyg ym mis Hydref.

Mae hyn yn cynrychioli llai na hanner y 72 o leoedd y dydd yr oeddem yn gallu eu cynnig cyn y pandemig o hyd. Felly penderfynom greu cylched PLAB 2 dros dro ychwanegol ar yr ail lawr yn ein swyddfa ym Manceinion, lle y mae gennym ddigon o le i gydymffurfio gyda'r gofynion ynghylch cadw pellter cymdeithasol a rhagofalon eraill. Gyda'r capasiti ychwanegol, gallwn brofi tua 11,000 o ymgeiswyr y flwyddyn erbyn hyn.

# Rhoi sylw i effaith y pandemig ar addysg a hyfforddiant meddygol

Cydweithiom yn agos gyda deoniaid israddedig ac ôl-raddedig, ymddiriedolaethau, byrddau, colegau, cynrychiolwyr hyfforddeion a chyrff addysg statudol ar draws y DU er mwyn sicrhau trefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol trwy gydol y pandemig.

## Lleddfu'r pwysau ar feddygon dan hyfforddiant

Cyflwynom sawl newid er mwyn cynorthwyo dilyniant hyfforddeion a lleihau'r amhariad gymaint ag y bo modd, gan gynnwys:

- cymeradwyo tua 550 o leoliadau hyfforddiant ychwanegol – gan gynnwys yr holl ysbytai Nightingale – er mwyn caniatáu i hyfforddeion a adleolwyd i wahanol safleoedd a / neu feysydd arbenigol i sicrhau bod y profiad a sicrhawyd yn cyfrif tuag at eu gweithgarwch camu ymlaen yn eu hyfforddiant
- addasu ein proses gymeradwyo er mwyn caniatáu i golegau brenhinol meddygol a chyfadrannau newid cwricwla yn gyflymach, fel y byddai modd addasu asesiadau i amodau gwaith newydd, gan sicrhau bod yr un cymwyseddau'n ofynnol er mwyn sicrhau tystysgrif cwblhau hyfforddiant
- gweithio gyda cholegau brenhinol meddygol a chyfadrannau er mwyn datblygu arweiniad newydd ar gyfer arholiadau ôl-raddedig yn ystod y pandemig, sydd wedi galluogi i dros 100 o arholiadau gael eu cynnal mewn ffordd ddiogel, gan gynnal safonau ar yr un pryd.

Gyda phartneriaid ar draws y system, rydym bellach yn archwilio'r ffordd orau o gadw rhai o'r newidiadau yr ydym wedi eu cyflwyno, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd.

## Sicrhau ansawdd ysgolion meddygol a nodi risgiau mewn amgylcheddau addysg a hyfforddiant

Ym mis Mawrth 2020, bu'n rhaid i ni oedi ymweliadau sicrhau ansawdd wyneb-yn-wyneb a gweithgarwch monitro estynedig er mwyn ymateb i gyfyngiadau'r pandemig.

Defnyddiom ein systemau monitro a chynhaliom gyfarfodydd gydag ysgolion meddygol a sefydliadau hyfforddiant ôl-raddedig er mwyn nodi unrhyw risgiau mewn amgylcheddau addysg a hyfforddiant gwahanol. Yna, aethom ati i fonitro sut yr oedd y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n lleol. O fis Mehefin 2020, llwyddom i ailgychwyn ymweliadau sicrhau ansawdd trwy drefniadau rhith. Yn ôl yr angen, cynhaliom ymweliadau ar y safle hefyd er mwyn cynnal lefelau diogelwch cleifion.

# Ymchwilio i bryderon a gweithredu yn eu cylch

Yn 2020, symudom ymlaen gydag achosion lle y gallem, ond roeddem yn gwybod na fyddai rhai cyflogwyr a meddygon yn gallu cynorthwyo gyda'n hymchwiliadau ar adeg mor dyngedfennol. Roedd hyn yn golygu bod rhai achosion wedi symud yn eu blaen yn arafach, neu ddim o gwbl am gyfnod.

O ddechrau mis Gorffennaf, ar ôl ystyried y mater yn ofalus ac ar ôl dod i gytundeb gyda swyddogion cyfrifol, dechreuom fwrw ymlaen gydag achosion addasrwydd i wneud gwaith meddygol unwaith eto, lle'r oedd modd gwneud hynny.

## Dull hyblyg a chymesur

Fel erioed, ein blaenoriaeth bob tro yw diogelwch cleifion. Ond rydym wedi cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull hyblyg a chymesur tuag at achosion addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn amgylchiadau heriol.

Er mwyn helpu ein penderfyniad i weithredu'r egwyddor hon mewn ffordd gyson a theg, cyhoeddom arweiniad newydd am y materion penodol y gallent effeithio ar waith meddygon yn ystod y pandemig, megis y gallu i fanteisio ar gyfarpar diogelu personol (PPE) a baich anghymesur clefyd a marwoldeb ar feddygon o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig. Mae gan feddygon ddyletswydd i ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel ag y bo modd i gleifion dan yr amgylchiadau ar y pryd, felly rydym yn parhau i asesu pob pryder fesul achos.

## Defnyddio ymholiadau amodol er mwyn asesu pryderon ynghylch diogelwch yn gyflym

Rydym wedi adolygu rhan fwyaf y pryderon a gawsom ynghylch gofal cleifion yn ystod y pandemig gan ddefnyddio ein proses ymholiadau amodol. Mae hyn wedi ein helpu i ystyried mor gynnar ag y bo modd a yw meddyg yn peri risg i gleifion, gan agor ymchwiliadau llawn yn ôl yr angen yn unig. Er mwyn cynorthwyo hyn, cyhoeddom arweiniad cyffredinol newydd hefyd ynghylch ymholiadau amodol.

# Cyflwyno hyblygrwydd ynghylch dyddiadau ailddilysu

Ym mis Mawrth 2020, ysgrifennom at yr holl swyddogion cyfrifol (ROs) i esbonio ein bod yn mynd i newid y dyddiadau ailddilysu[4] ar gyfer meddygon y byddent yn ailddilysu rhwng 17 Mawrth a diwedd mis Medi 2020. Roedd gohirio dyddiadau ailddilysu yn galluogi meddygon i ganolbwyntio ar ddarparu'r gofal gorau ag y bo modd i gleifion yn ystod y pandemig.

Roedd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr (ELAs) wedi parhau i gynorthwyo ROs yr oeddent yn mynd i'r afael â sialensiau newydd ac anodd, trwy symud i gyfarfodydd ar-lein. Bu'r linell gyfathrebu allweddol hon yn hanfodol wrth ein helpu i ddeall sut yr oedd y proffesiwn yn ymdopi yn ystod y pandemig. Gan ymateb i'r adborth a gawsom, penderfynom symud dyddiadau ailddilysu yn ôl flwyddyn hefyd i feddygon yr oedd eu dyddiadau rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021.

Felly, at ei gilydd, gohiriwyd dyddiad cyflwyno ailddilysu unrhyw feddygon yr oedd eu dyddiad cyflwyno ailddilysu yn cwympo rhwng 17 Mawrth 2020 ac 16 Mawrth 2021, am flwyddyn.

Fodd bynnag, dywedodd ROs wrthym hefyd yr hoffent gael mwy o hyblygrwydd er mwyn gwneud argymhellion, fel y byddai modd ailddilysu meddygon pan fyddent yn barod i wneud hynny.

Felly, rhoddom hysbysiad o 8 Mehefin 2020 i bob meddyg yr oedd eu dyddiadau wedi symud[5]. Roedd hyn yn golygu y gallai ROs wneud argymhelliad i ailddilysu unrhyw feddyg yr oedd eu dyddiad wedi newid, o'r dyddiad hwnnw tan eu dyddiad ailddilysu newydd.

Mae ELAs wedi cynorthwyo ROs hefyd gyda phryderon sy'n dod i'r amlwg, arfarniadau, a phryderon ynghylch newid arweiniad cenedlaethol. Yn ogystal, roedd yr ELAs wedi parhau i weithio gydag ymddiriedolaethau a byrddau er mwyn rhoi sylw i bryderon lleol.

# Darparu arweiniad a chyngor i feddygon trwy gyfrwng canolfan adnoddau ar-lein newydd

Roedd y pandemig yn creu sialensiau unigryw i feddygon yr oeddent yn gweithio o fewn systemau gofal iechyd DU.  Roedd hi'n hanfodol darparu arweiniad clir ac wedi'i dargedu er mwyn cynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol mewn sefyllfaoedd heriol.

Felly datblygom ganolfan arweiniad ar-lein am y coronafeirws, sef adnodd ar-lein pwrpasol sy'n darparu arweiniad penodol ynghylch gweithio yng nghyd-destun y pandemig.  Mae'r ganolfan yn cynnwys gwybodaeth am ymgynghoriadau o bell, caniatâd, gweithio mewn ffordd ddiogel, ac iechyd a lles.

Mewn llythyr a anfonwyd at brif weithredwyr pob ymddiriedolaeth yn Lloegr, nododd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU bod ein canolfan yn enghraifft o arfer da.

Wrth ddatblygu'r adnodd, defnyddiom ddirnadaeth gan ein gwasanaeth ymholi moesegol, ac o drafodaethau rhwng ein timau Allgymorth a'r proffesiwn.  Roedd hyn wedi ein helpu i nodi'r prif themâu yr oedd angen i feddygon gael arweiniad a chymorth yn eu cylch.  Yn ogystal, ymgynghorom gyda'n fforwm cynghori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant strategol a'r Fforwm Meddygon Du ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME).

Ers hynny, rydym wedi parhau i ddiweddaru'r cynnwys yn y ganolfan er mwyn adlewyrchu datblygiadau dynamig trwy gydol y pandemig.

# Cynorthwyo meddygon i weithredu ein harweiniad moesegol

Ymunodd Kelly Tully, Cynghorydd Cyswllt Rhanbarthol Uwch, â'n timau Allgymorth yng nghanol y pandemig.

'Daeth hi'n amlwg yn gynnar y byddai angen i'n tîm addasu ein dull i'r rôl er mwyn bodloni'r newidiadau y byddent yn codi yn sgil y cyfnod clo a'r pandemig.

Cyn y pandemig, byddem ar y ffordd yn ymweld ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys ymddiriedolaethau ysbyty a byrddau. Fel rhan o'n rôl, byddem yn darparu sesiynau rhyngweithiol sy'n hyrwyddo ein safonau ac sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall meddygon eu gweithredu mewn sefyllfaoedd go iawn.

Yr her fwyaf i ni yn 2020 oedd y ffaith nad oedd gennym y seilwaith presennol yn ei le er mwyn gallu newid o gynigion wyneb-yn-wyneb i rai rhith yn hawdd. Felly aethom ati i sefydlu prosiect cyflawni rhith er mwyn cynyddu ein gallu ym maes ymgysylltu rhith.

Canolbwyntiom ar uwchsgilio a chynorthwyo cynghorwyr allgymorth i deimlo'n hyderus ac yn alluog wrth ymgysylltu gyda a darparu sesiynau rhith ar gyfer rhanddeiliaid, trwy wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Addasodd ein cynghorwyr mewn ffordd hynod o dda i'r amgylchiadau anodd yr oeddent wedi'u hwynebu, ac mae'n bleser gennyf ddweud bod gwerthusiadau o sesiynau yn parhau i fod yn llawn canmoliaeth, gan ddangos ein bod wedi parhau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol a sesiynau arweiniad o ansawdd uchel i hyfforddeion, er gwaethaf y sialensiau yr oeddem yn eu hwynebu.'

## *Croeso i arfer yn y DU*

Gan ymateb i gyfyngiadau'r pandemig, dechreuom gynnal fersiynau ar-lein o'n gweithdai *Croeso i arfer yn y DU* hefyd, ar gyfer meddygon y mae gweithio yn y DU yn brofiad newydd iddynt.

Mae'r gweithdai yn helpu meddygon i addasu i ddiwylliant gweithio systemau gofal iechyd y DU, gan ddarparu arweiniad ymarferol am sefyllfaoedd moesegol y gallent ddod ar eu traws. Yn ogystal, maent yn cynnig y cyfle i gyfranogwyr gyfarfod meddygon eraill sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol, ac y maent newydd ddechrau gwneud gwaith meddygol yn y DU hefyd.

Bydd ein trefniadau darparu rhith yn parhau wrth i ni addasu i'r tirlun allanol sy'n newid. Ein nod yn y tymor hir yw sicrhau model ymgysylltu hybrid sefydledig, lle y mae gweithgarwch ymgysylltu rhith yn cyd-fynd â'n dull wyneb-yn-wyneb traddodiadol. Gweler tudalen 24 am ragor o wybodaeth am y ffordd yr ydym wedi ehangu'r gweithdai hyn.

# Defnyddio dirnadaeth er mwyn cynorthwyo'r proffesiwn a rhannu data er mwyn cyfrannu at drafodaethau pwysig am y gweithlu

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, ymatebodd tua 13,000 o feddygon i'n harolwg *Cwblhau'r darlun.* Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar resymau meddygon dros benderfynu stopio gwneud gwaith meddygol yn y DU a'r rhwystrau yr oeddent yn eu hatal rhag dychwelyd i wneud gwaith meddygol. Roedd y canfyddiadau wedi cynnig dirnadaeth ffres i ni a'n partneriaid o faterion allweddol sy'n effeithio ar weithgarwch i gynnal y gweithlu meddygol a'i ddatblygiad.

Fel arfer, byddem yn dilyn proses benodedig o ddadansoddi'r canlyniadau ac ysgrifennu adroddiad rhediad stori cyn cyhoeddi'r canlyniadau[8]. Fodd bynnag, roedd datblygiad y pandemig wedi golygu bod mwy o frys o ran yr angen i rannu dirnadaethau a gwybodaeth.

Felly addasom ein prosesau, gan rannu canfyddiadau cynnar gyda phartneriaid ym mis Mawrth, er mwyn helpu i gyfrannu at drafodaethau pwysig ynghylch y gweithlu yng nghyd-destun y pandemig. Yna, rhannom rannau perthnasol gwahanol o'r data gyda rhanddeiliaid amrywiol trwy gydol 2020. Buom yn ofalus i rybuddio mai canfyddiadau yr oeddent yn dod i'r amlwg oedd y rhain, a bod gofyn eu dadansoddi ymhellach.

Croesawodd rhanddeiliaid y ddirnadaeth hanfodol gynnar hon, a oedd wedi bwrw rhywfaint o oleuni ar y risgiau a'r materion sy'n effeithio ar waith meddygon mewn ffordd amserol.

Yn ogystal, rhannom ddata, ymchwil ac astudiaethau achos yr oeddent yn archwilio profiadau meddygon trwy gydol anterth cyntaf y pandemig yn nogfen *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU*. Gweler tudalen 28 am ragor o wybodaeth am hyn.

# Symud ein strategaeth 2018-20 yn ei blaen

2020 oedd y flwyddyn olaf a ystyriwyd yn ein strategaeth gorfforaethol 2018–20. Roedd y strategaeth yn nodi ein huchelgais i sicrhau newid, gan newid pwyslais ein gwaith o weithredu pan fydd pethau wedi mynd o'i le, i gynorthwyo pob meddyg i ddarparu gofal o'r safon uchaf. Roedd ein gwaith yn ystod 2020 wedi parhau i gael ei siapio gan y strategaeth hon a'i phedwar prif nod.

- Cynorthwyo meddygon i gynnal arfer da
- Cryfhau gweithgarwch cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd
- Cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn
- Bodloni anghenion y gwasanaethau iechyd sy'n newid ar draws pedair gwlad y DU

Fel y dangoswyd yn yr adran flaenorol, roedd y pandemig wedi cael effaith arwyddocaol ar ein gweithrediadau. Roedd wedi arafu ein cynnydd strategol hefyd.

Er hyn, rydym wedi cyflawni cryn dipyn ers i ni amlinellu ein blaenoriaethau yn 2018.

Yma, byddwn yn ystyried faint yr ydym wedi'i gyflawni a sut yr ydym yn bwriadu parhau gyda'r gwaith hwn dros y blynyddoedd i ddod, ar sail nerth *Ein strategaeth 2021–25*.

# Cynorthwyo meddygon i gyflawni gwaith meddygol da

## Datblygu arweiniad perthnasol a gwybodus gyda meddygon ac ar gyfer meddygon

Hyd yn oed cyn 2020, roedd gofal iechyd yn faes a oedd yn newid yn gyson. Dyma pam ein bod yn adolygu ein harweiniad fel mater o drefn. Pan fyddwn yn gwneud hyn, byddwn yn cynnal ymgynghoriadau helaeth gyda'r cyhoedd, y proffesiwn a'n partneriaid er mwyn sicrhau bod ein harweiniad ar gyfer meddygon yn parhau i fod yn berthnasol, yn hygred ac yn cyd-fynd â phrofiadau cleifion a meddygon. Mae'r adborth a gawn yn hanfodol wrth siapio ein hadnoddau ar gyfer meddygon a chleifion.

### Gwneud penderfyniadau a chaniatâd

Roedd dros 760 o bobl – gan gynnwys grwpiau cleifion, meddygon, cyflogwyr gwasanaeth iechyd ac arbenigwyr gofal iechyd a chyfreithiol – wedi helpu i siapio ein harweiniad *Gwneud penderfyniadau a chaniatâd* diwygiedig. Cyhoeddwyd hwn ym mis Medi 2020, ac mae'n amlygu pwysigrwydd meddygon a chleifion yn gwneud penderfyniadau am driniaeth a gofal gyda'i gilydd.

Ar ôl ei ryddhau, gwelwyd yr arweiniad ychydig yn llai na 152,000 gwaith ar ein gwefan yn ystod 2020. Law yn llaw â hyn, gwelwyd fideo cryno byr a gynhyrchom er mwyn helpu meddygon i ymgyfarwyddo â saith egwyddor gwneud penderfyniadau a chaniatâd yn gyflym, dros 15,000 gwaith. Mae'r niferoedd hyn yn dynodi lefel ymgysylltu uchel gyda'r wybodaeth bwysig hon, ac efallai nad yw hyn yn peri syndod o ystyried y ffaith ei fod yn berthnasol i'r broses o gyflwyno brechiad COVID-19.

### Presgripsiynu ac ymgynghoriadau o bell

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd cyflym yn y defnydd a wneir o weithgarwch presgripsiynu ac ymgynghoriadau o bell. Cydnabuom bwysigrwydd dal i fyny gyda'r twf hwn yn ystod 2019 trwy gyd-gynhyrchu egwyddorion lefel uchel a chyhoeddi datganiad ar y cyd. Yn 2020, defnyddiom ymatebion i'n galwad am dystiolaeth er mwyn diweddaru ein harweiniad, *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau,* fel ei fod yn adlewyrchu profiadau dydd-i-ddydd meddygon, cleifion a phartneriaid rheoliadol.

Yn ogystal, roedd adborth a gafwyd yn ystod sesiwn bord gron i gleifion, a gynhaliwyd yn ystod 2019, wedi ein helpu i siapio a chyfrannu at gyngor defnyddiol i gleifion sy'n manteisio ar ofal iechyd ar-lein. Lansiwyd y cyngor defnyddiol, a gyd-gynhyrchom gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rheolyddion eraill, ym mis Mawrth 2020.

| | |
|---|---|
| Clir ac yn cynnwys ffocws, gan gynnwys crynodeb wych o'r meysydd allweddol o ran galluedd cleifion sy'n oedolion i wneud penderfyniadau. Mae'r arweiniad a'r cysylltiadau offer yn cynnig sylfaen gadarn er mwyn datblygu'r grefft o ymgynghori #PenderfynuGyda'nGilydd – Dr Roy Vaziri | Roedd MHRA wrth ei bodd o gael bod yn rhan o fenter @gmcuk i ddiweddaru'r arweiniad i feddygon ynghylch presgripsiynu o bell, gan gynorthwyo ymdrechion i gadw cleifion yn ddiogel. – MHRA |

## Rhoi sylw i anghydraddoldebau a helpu i greu gofal iechyd cynhwysol

Nid yw profiadau pob meddyg a myfyriwr meddygol yn gyfartal – rydym wedi gweld hynny yn y dystiolaeth helaeth yr ydym wedi'i chasglu dros y blynyddoedd diwethaf. Ac roedd digwyddiadau 2020 wedi amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldebau sy'n parhau ym maes meddygaeth ac ar draws cymdeithas.

Bu ein gwaith ymchwil yn hanfodol wrth ein helpu ni ac eraill i ddeall mwy am y sawl sy'n cael eu heffeithio mewn ffordd andwyol gan annhegwch ac anghyfiawnder. Ac mae'n amlwg ei bod yn hen bryd gweithredu.

### Hyrwyddo amgylcheddau gofal iechyd cynhwysol

Amlygodd ein gwaith ymchwil *Teg cyfeirio?* y ffaith bod rhai meddygon du ac o leiafrifoedd ethnig yn teimlo'u bod mewn grwpiau 'ar y cyrion' mewn sefydliadau, sy'n golygu na fyddant yn cael cymorth digonol ac maent yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio atom gan eu cyflogwr.

Fel rhan o'n hymdrechion i roi sylw i hyn, rydym wedi cynorthwyo gwaith ynghylch cydraddoldeb hiliol o fewn GIG. Yn arbennig, cyfrannom ddata a syniadau er mwyn gwella gweithgarwch ymsefydlu fel rhan o'n gwaith ar Safon *Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu GIG*. Mae'r safon yn nodi gofynion ar gyfer holl gomisiynwyr a holl ddarparwyr gofal iechyd GIG, gan gynnwys sefydliadau annibynnol.

Mae'n hanfodol parhau'r sgwrs bwysig am yr hyn y gallwn ei wneud yn fwy er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

Yn ein cynhadledd CMC rhith gyntaf erioed, yn 2020, cafwyd anerchiad bwerus gan Dr Olamidé Dada, Sylfaenydd a Phrif Weithredwr Melanin Medics, am ei gobeithion ar gyfer gweithwyr meddygol proffesiynol Affricanaidd a Charibïaidd, y byddant yn gallu ffynnu heb hiliaeth a gwahaniaethu.

Law yn llaw â'r meddygon a'r myfyrwyr meddygol sydd wedi estyn allan i ni, credwn ei bod yn hanfodol bod amrywiaeth yn cael ei gynrychioli mewn cwricwla addysg a hyfforddiant meddygol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Ysgolion Meddygol er mwyn cynorthwyo arweiniad ynghylch amgylcheddau dysgu cynhwysol. Ac rydym wedi ymrwymo i'n gwaith gydag ysgolion meddygol a darparwyr hyfforddiant ôl-raddedig y DU er mwyn sicrhau bod pob meddyg yn gallu bodloni holl anghenion cleifion a'r boblogaeth.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith fel rheolydd, ac fel cyflogwr. Dyna pam ein bod wedi ymwreiddio ein hymrwymiadau ar draws ein strategaeth newydd. Ceir rhagor o fanylion am hyn o dudalen 52.

> Mae'n gymaint o anrhydedd cael rhoi'r prif gyflwyniad yn ystod diwrnod olaf #GMCconf20 ynghylch Meddygaeth mewn Lliw! Mae sicrhau newid gyda'n gilydd yn bwysicach nag y mae erioed wedi bod. Bu'n bleser rhannu gwybodaeth am @MelaninMedics a'r camau y gallwn oll eu cymryd.
>
> - Dr Olamidé Dada

## Darparu cymorth ymarferol i feddygon er mwyn iddynt roi'r gofal gorau ag y bo modd i gleifion

Mae ein timau Allgymorth yn cynnal gweithdai am ddim ar draws y DU, a gynlluniwyd i helpu meddygon fynd i'r afael â rhai o'r materion moesegol y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Yn 2020, darparodd ein cynghorwyr cyswllt rhanbarthol a chenedlaethol hyfforddiant ar gyfer a buont yn ymgysylltu mewn digwyddiadau gyda dros:

- 11,840 o feddygon yn Lloegr
- 530 o feddygon yng Ngogledd Iwerddon
- 940 o feddygon yn Yr Alban
- 240 o feddygon yng Nghymru.

Gan ystyried amrediad o bynciau, mae'r gweithdai yn helpu i sicrhau bod meddygon yn meddu ar yr offer a'r cymorth er mwyn cynnig gofal o'r safon uchaf i gleifion. Mae ein cynghorwyr yn cael adborth cadarnhaol yn rheolaidd ynghylch ansawdd ac effaith y gweithdai.

| | |
|---|---|
| Rhyngweithiol, diddorol ac atyniadol. Dehongliad defnyddiol o | Defnyddiol iawn o ran y canllawiau a ddiweddarwyd. Pwyntiau defnyddiol ynghylch ymgynghoriadau o bell. |

Dros ddwy flynedd gyntaf ein strategaeth 2018-2020, roedd y niferoedd a fynychodd ein gweithdai *Croeso i arfer yn y DU* bron wedi dyblu, i 3,692 o feddygon yn 2019. Mae'r gweithdai hyn yn cynnig arweiniad ymarferol i feddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol ynghylch gwahanol sefyllfaoedd moesegol. Arafwyd cynnydd pellach yn ystod 2020 gan effaith y pandemig, oherwydd y bu'n rhaid i ni oedi'r ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb ym mis Mawrth.

Er mwyn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn yn 2020, cynlluniom, datblygom a phrofom fersiwn ar-lein o'r gweithdy, y llwyddom i'w gyflwyno fel peilot ym mis Gorffennaf. Mae'r gweithdy ar-lein newydd, a ddarparwyd gan gynghorwyr cyswllt cenedlaethol a rhanbarthol a chymdeithion CMC, wedi cael adborth cadarnhaol yn gyson. Yn ogystal, mae wedi gweld lefelau presenoldeb uchel, wrth i dros 3,760 ei fynychu ers iddo gychwyn ym mis Gorffennaf 2020.

Mae'r ganolfan foesegol ar ein gwefan hefyd yn cynnig mynediad cyflym a hawdd i'n harweiniad moesegol i feddygon a myfyrwyr meddygol. Mae casgliad yr adnoddau dysgu, a welwyd dros 211,000 gwaith yn ystod 2020, yn cynnwys astudiaethau achos, offerynnau penderfynu, siartiau llif a fideos. Fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo meddygon gyda sefyllfaoedd moesegol cyffredin, megis diogelu oedolion, gofal iechyd ar gyfer unigolion trawsrywiol ac ymgynghoriadau o bell.

Mae meddygon yn gweithio dan bwysau aruthrol, ac rydym wedi ymrwymo i wneud yr hyn y gallwn er mwyn darparu cymorth amserol ac effeithiol, fel y gall pob claf gael gofal cyson ac o ansawdd uchel.

## Hwyluso'r broses o newid arbenigeddau i feddygon

Bellach, gall meddygon dan hyfforddiant symud rhwng arbenigeddau, heb iddynt golli cydnabyddiaeth am y gwaith y maent eisoes wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn gwella hyblygrwydd yr hyfforddiant ac yn ei gwneud yn haws i feddygon ehangu eu profiad o wahanol arbenigeddau, gan ddatblygu eu gyrfaoedd mewn ffyrdd y maent wedi'u teilwra i'w cryfderau, eu dewisiadau a'u hamgylchiadau. Cyflawnir hyn oll wrth sicrhau bod cleifion yn parhau i gael gofal diogel ac o ansawdd uchel.

Mae hwn yn gynnydd pwysig yn erbyn un o gyfres o ymrwymiadau a nodwn yn ein hadroddiad, *Addasu ar gyfer y dyfodol: cynllun er mwyn gwella hyblygrwydd hyfforddiant meddygol ôl-raddedig y DU*. Bu ein gwaith gydag Academi y Colegau Brenhinol Meddygol (AoMRC) er mwyn adolygu ei drefniadau a chynorthwyo hyfforddeion yr oeddent yn dymuno trosglwyddo i arbenigedd arall, yn rhan allweddol o'r datblygiad hwn. Arweiniodd y darn o waith hwn a wnaethpwyd ar y cyd at AoMRC yn cyhoeddi *Arweiniad ar gyfer hyblygrwydd mewn hyfforddiant ôl-raddedig a newid arbenigeddau* ym mis Mehefin 2020.

Dim ond un rhan yw hwn o'n diwygiadau addysgol ehangach. Er enghraifft, rydym wedi cyflawni'r canlynol hefyd:

- ailddatgan ein hymrwymiad i hyfforddiant llai nag amser llawn
- diweddaru ein polisi ar gyfer meddygon sy'n dymuno cael Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant trwy raglen gyfunol y Dystysgrif Cymhwystra ar gyfer Cofrestriad Arbenigol
- cyhoeddi arweiniad cynhwysfawr ynghylch cymorth i hyfforddeion sy'n cael problemau iechyd ac anabledd.

Gan ymateb i *Rhagoriaeth trwy ddyluniad: safonau ar gyfer datblygu a dylunio cwricwla meddygol ôl-raddedig*, a gynlluniwyd gennym er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn fwy hyblyg, mae colegau brenhinol meddygol a chyfadrannau wedi bod yn diweddaru eu cwricwla.

### Adolygu cwricwla ôl-raddedig a ddiweddarwyd

Ym Mehefin 2021, roedd 84 o blith 100 cwricwla wedi cael eu diweddaru. Rydym wedi cymeradwyo 68 ac rydym yn adolygu 32 pellach.

Mae hwn yn dynodi cam cyntaf pwysig er mwyn rhoi hwb i hyblygrwydd hyfforddiant ôl-raddedig. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu'r cynnydd hwn y mae cryn angen amdano.

## Cydweithio er mwyn datblygu'r Asesiad Trwyddedu Meddygol

Bydd meddygon yn ymuno â'n system gofal iechyd gydag amrywiaeth sylweddol o brofiad, boed hwnnw wedi cael ei sicrhau trwy gyfrwng hyfforddiant meddygol yn y DU neu mewn gwlad dramor. Bydd cleifion yn cael budd o'r profiadau amrywiol, ond mae angen i ni fod yn siŵr bod pob meddyg yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad hanfodol sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt allu gwneud gwaith diogel pan fyddant yn dechrau gweithio yn y DU.

Dyma pam ein bod yn cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (ATM). Bydd yn sicrhau bod myfyrwyr mewn ysgolion meddygol yn y DU, yn ogystal â graddedigion meddygol rhyngwladol sy'n ceisio cofrestriad gyda thrwydded i wneud gwaith meddygol yn y DU, wedi bodloni trothwy cyffredin ar gyfer arfer diogel sy'n briodol i'w pwynt mynediad ar y gofrestr feddygol.

Roedd effaith y pandemig wedi cyfyngu ar ein capasiti ni ac ar gapasiti ein rhanddeiliaid i ymgysylltu er mwyn cyfrannu at ddatblygiad yr ATM yn ystod 2020. O ganlyniad, penderfynom oedi gweithrediad yr ATM am flwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd yr ATM yn weithredol yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25 ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion meddygol y DU, ac yn gynnar yn 2024 ar gyfer graddedigion meddygol rhyngwladol.

Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2020, cynhaliodd tîm ATM, gyda chymorth arbenigwyr asesu annibynnol, beilot a oedd yn cynnwys ysgolion meddygol gwirfoddol a'n tîm PLAB er mwyn datblygu'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer yr asesiad sgiliau clinigol a phroffesiynol (CPSA). Gellir gweld manylion am yr hyn a ddysgom yn adroddiad y peilot ar ein gwefan. Yn dilyn y peilot, cyhoeddom set ddiwygiedig o ofynion CPSA, y mae modd gweld y rhain ar ein gwefan hefyd.

Croesawodd partneriaid y datganiad ar y cyd a gyhoeddom gydag MSC ym mis Gorffennaf. Roedd y datganiad yn cyhoeddi ymrwymiad gan ysgolion meddygol i ymwreiddio'r ATM yn eu graddau meddygol. Roedd yn cynnwys y cynnig y dylai ysgolion meddygol gydweithio er mwyn datblygu asesiad wedi'i arwain gan brifysgol ar gyfer myfyrwyr yn y DU, y gallem ei reoleiddio. Cyflwynir y cynnig ffurfiol i'w ystyried a'i gymeradwyo gan Gyngor CMC yn 2021.

Trwy gydol 2020, darparom ddiweddariadau i fyfyrwyr a'u cynrychiolwyr, gan ganolbwyntio ar y ffordd y bydd y datblygiadau hyn yn effeithio arnynt. Ym mis Rhagfyr 2020, mynychodd 68 o gydweithwyr ysgolion meddygol o 29 ysgol ein sesiynau Holi ac Ateb a gwybodaeth rhith. Wrth i'r gwaith datblygu barhau, byddwn yn parhau i ymgysylltu gydag ysgolion meddygol, hyfforddwyr ôl-raddedig, cleifion, sefydliadau myfyrwyr a myfyrwyr, a'u diweddaru, er mwyn cynnig cyfle iddynt gyfrannu eu dirnadaeth a'u harbenigedd nhw i'r rhaglen ATM.

# Cryfhau cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd

## Rhannu dirnadaeth ynghylch profiadau meddygon a myfyrwyr meddygol

Amlygodd ein rhifyn 2020 o adroddiad *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU* effeithiau anterth y pandemig yn ystod y gwanwyn ar feddygon, gwasanaethau iechyd a gofal ar gyfer cleifion ar draws y DU. Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad manwl o ganfyddiadau allweddol yr arolwg hyfforddiant Cenedlaethol ac arolwg Baromedr. Yn ogystal, mae'n cynnwys astudiaethau achos, y maent yn ystyried profiadau meddygon unigol yn ddyfnach.

Croesawyd yr adroddiad gan bartneriaid yn systemau gofal iechyd DU, gan gynnwys colegau brenhinol meddygol, byrddau addysg iechyd a Chonffederasiwn GIG. Dywedodd Dr David Chung, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM):

> Mae adroddiad CMC yn datgelu'r gwirionedd trist nad yw profiad ein cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig yr un fath â phrofiad eu cymheiriaid gwyn.
>
> Yr arolwg ei hun yw'r cam cyntaf wrth gydnabod y realiti hwn, ond rhaid i ni sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei barhau nawr, ein bod yn gwrando ar y pryderon a fynegir ac yn gweithredu gyda diben er mwyn unioni'r sefyllfa hon.
>
> Ar ddechrau ein taith, mae Pwyllgor EDI RCEM yn gobeithio gweithio mewn ffordd adeiladol gyda CMC, gan ddatblygu'r gwaith pwysig hwn er mwyn symud ymlaen o'r hyn yr oeddem wedi gobeithio ei fod yn ein gorffennol, ond y mae'n amlwg ei fod yn parhau i fod yn wir yn ein presennol.

### Canfyddiadau allweddol rhifyn 2020 o adroddiad *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU*

- Roedd pedwar o bob pump (81%) meddyg wedi profi newidiadau sylweddol i'w gwaith ac roedd dros ddau o bob pump (42%) wedi cael eu hadleoli.
- Nododd tua un o bob tri (32%) meddyg hefyd bod cyfnod cychwynnol y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles meddyliol.
- Mae maint y gweithlu meddygol yn parhau i dyfu, gyda chynnydd uwch nag y gwelwyd erioed o'r blaen i'w weld yn nifer y meddygon trwyddedig rhwng 2019 a 2020 (5%). Rhwng 2012 a 2020, roedd nifer y meddygon trwyddedig wedi codi dros 14%.
- Mae nifer y graddedigion meddygol rhyngwladol (IMGs) sy'n ymuno â gweithlu meddygol y DU wedi parhau i godi. Rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mehefin 2020, ymunodd dros 10,000 o IMGs newydd â'r gofrestr – mwy na nifer y graddedigion o'r DU ac AEE gyda'i gilydd.
- Dywedodd tua un o bob tri (36%) meddyg eu bod yn ystyried lleihau eu horiau clinigol, gostyngiad o bron i hanner (46%) yn 2019.

Mae gweithlu meddygol y DU yn un gynyddol amrywiol o ran ethnigrwydd. Roedd dros hanner (54%) y meddygon a ymunodd â'r gofrestr yn 2020 wedi nodi eu bod yn perthyn i gategori du a lleiafrifoedd ethnig.

## Codi lleisiau meddygon a myfyrwyr meddygol

Mae arolygon yn cynnig dirnadaeth hanfodol i ni o brofiadau dydd-i-ddydd meddygon, gan ffurfio tystiolaeth y gallwn weithredu ar ei sail.

### Arolwg hyfforddiant cenedlaethol

Bob blwyddyn, byddwn yn holi hyfforddeion a hyfforddwyr er mwyn clywed eu safbwyntiau am hyfforddiant a'r amgylcheddau lle y maent yn gweithio.

Mae ein timau yn defnyddio canfyddiadau arolygon hyfforddiant Cenedlaethol er mwyn monitro ansawdd yr hyfforddiant ar draws pob amgylchedd hyfforddiant yn y DU – ac er mwyn gweithio gyda deoniaid ôl-raddedig, colegau brenhinol meddygol a chyflogwyr er mwyn nodi arfer da, delio â phryderon a helpu i ddatblygu amgylcheddau hyfforddiant cefnogol a chynhwysol.

Oherwydd y pandemig, gohiriom arolwg 2020 o'i ddyddiad lansio gwreiddiol ym mis Mawrth.  Yn ogystal, ychwanegom gwestiynau newydd er mwyn ein helpu i ddeall effaith y pandemig ar hyfforddiant, lles, cynhwysiant a chymorth, law yn llaw â'n cwestiynau arferol ynghylch llwyth gwaith, gorweithio, a diogelwch cleifion.

Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg mewn offeryn adrodd ar-lein gyda chyfleuster hidlo er mwyn archwilio'r data fesul rhanbarth, gwlad, arbenigedd, rhaglen neu ymddiriedolaeth/bwrdd – y maent oll wedi'u meincnodi yn erbyn cyfartaledd y DU.

### Arolwg meddygon arbenigol ac arbenigwyr cyswllt (SAS) a meddygon a gyflogir yn lleol (LE)

Ceir dros 45,000 o feddygon SAS ac LE ar y gofrestr feddygol ac mae'r nifer hwn yn cynyddu.

Yn 2020, cyhoeddom ganfyddiadau yr arolwg cyntaf ar gyfer meddygon SAS ac LE, ac ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio gydag eraill i archwilio sut y gallwn roi sylw i rai o'r materion a godwyd.

### Arolwg Baromedr

Comisiynom IFF Research yn y lle cyntaf i gynnal arolwg Baromedr yn 2019.  Fe'i cynlluniwyd i ddarparu gwaelodlin ar gyfer y gweithgarwch blynyddol o olrhain profiadau meddygon yn y gweithle, addasiadau y maent yn eu gwneud er mwyn ymdopi gyda phwysau, a'u bwriadau o ran gyrfa.

Er bod arolwg 2020 wedi cadw'r nod hwn, penderfynom fireinio rhai cwestiynau, er mwyn i ni allu cael gwybod am brofiadau meddygon yn ystod y pandemig.

Bob blwyddyn, byddwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r canfyddiadau o arolwg Baromedr a'r arolwg hyfforddiant Cenedlaethol yn adroddiad *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU*.  Yn 2020, cynhwysom ganfyddiadau interim o waith ymchwil Prifysgol Newcastle hefyd.  Bu'r ymchwil, a gefnogwyd gennym, yn ystyried profiadau graddedigion meddygol 2020, gan ddechrau gyda'r rhai yr oeddent wedi cychwyn mewn swyddi interim sylfaenol.

**Cwblhau'r darlun**

Cynhaliwyd ein harolwg *Cwblhau'r darlun* rhwng 21 Ionawr a 10 Mawrth 2020, cyn anterth y pandemig yn y gwanwyn. Fe'i cynhaliwyd mewn partneriaeth gydag Addysg Iechyd Lloegr, yr Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon), Addysg GIG yr Alban ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Arolygom 13,158 o feddygon yr oeddent wedi gwneud gwaith meddygol yn y DU yn flaenorol, ond nad oeddent yn gwneud hynny ar yr adeg y llanwyd yr arolwg. Gofynnom gyfres o gwestiynau iddynt ynghylch pam eu bod wedi penderfynu stopio gwneud gwaith meddygol neu adael y DU i wneud gwaith meddygol rywle arall.

## Rhannu ein data a'n dirnadaeth gyda system gofal iechyd y DU

Rydym wedi gwneud ymrwymiad cryf i rannu ein data a'r ddirnadaeth yr ydym yn ei chael ohono gyda'n partneriaid o fewn systemau gofal iechyd y DU. Yn 2020, roedd y mentrau wedi cynnwys:

- cynnal derbyniad er mwyn rhannu canfyddiadau 2019 adroddiad *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU*, a fynychwyd gan dros 50 o Seneddwyr ac amrywiaeth o sefydliadau iechyd ar draws y DU, gan gynnwys grwpiau cleifion
- lansio e-gylchlythyr newydd, a oedd yn cynnwys erthyglau am ein gwaith ymchwil a gwybodaeth ynghylch sut y mae'n helpu i gyfrannu at ein gwaith gyda chleifion a meddygon
- creu cynhyrchion data newydd wedi'u teilwra i bob un o'r bedair gwlad.

Gan gyd-fynd gyda'r mentrau hyn, mae ein Huned Perthnasoedd Strategol (SRU) yn cryfhau ein gweithgarwch rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid rheoliadol a rhanddeiliaid strategol ar draws y DU. Yn 2020, cynhaliont dros 300 o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a phartneriaid rheoliadol.

Yn ogystal, rydym yn rhannu dirnadaeth gyda'n partneriaid yn gyson trwy gyfrwng sianelau eraill, megis ein Fforymau Cynghori y DU a thrwy ein tîm Ewropeaidd a Rhyngwladol.

Yn ystod 2020, cafwyd trafodaethau pwysig ynghylch materion, megis effaith y pandemig ar gofrestru, ailddilysu, ac addysg a hyfforddiant.

Gall unrhyw un droi at y data yr ydym yn ei ddal – trwy Archwiliwr Data CMC – a'i ddefnyddio er mwyn darganfod dirnadaeth newydd o'r gweithlu gofal iechyd a datgelu tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y gweithlu gofal iechyd. Yn 2020, roedd dros 10,300 o bobl wedi troi at yr adnodd rhyngweithiol hwn.




**Bonesig Clare Marx yn amlygu canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil yn ystod y derbyniad Seneddol**

## Sicrhau newid gyda'n gilydd

Ers i ni gyhoeddi cyfres o adroddiadau fel rhan o raglen *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn cyflawni'r argymhellion. O blith y 15 argymhelliad a nodwyd ar ein cyfer ni yn unig yn yr adroddiadau, rydym wedi cyflawni dros hanner ohonynt ac rydym yn sicrhau cynnydd da gyda'r saith sy'n weddill. Mae rhai datblygiadau allweddol yn cynnwys:

- pedair ymddiriedolaeth yn peilota'r ddarpariaeth ymsefydlu safonol i feddygon rhyngwladol a ddatblygom gyda GIG Lloegr ac NHS Improvement (NHSE/I)
- 729 meddyg yn mynychu sesiynau arfer myfyriol a ddarparwyd gan ein timau Allgymorth
- dros 80 o bobl ar draws ysgolion meddygol lluosog yn mynychu ein digwyddiadau *Gofalu am feddygon Gofalu am gleifion*, lle y buom yn hyrwyddo canfyddiadau'r adroddiad ac yn trafod sut y gallai ysgolion weithredu newidiadau yn lleol
- cynghorwyr cyswllt cyflogwyr yn cynnal 'sgyrsiau tegwch' rheolaidd gyda swyddogion cyfrifol ynghylch gwneud penderfyniadau mewn ffordd deg a darparu hyfforddiant ynghylch rhagfarn ddiarwybod i sefydliadau lluosog.

Mae ein timau ar draws y DU yn codi ymwybyddiaeth o argymhellion y rhaglen yn gyson yn ein gweithgarwch rhyngweithio gyda meddygon, arweinwyr meddygol a chyflogwyr.

Mae'r pandemig wedi rhoi dimensiwn newydd i'r gwaith hwn, gan ddwyn nid yn unig sialensiau, ond hefyd, cyfleoedd i sicrhau mwy o hyblygrwydd ac arloesedd yn systemau gofal iechyd y DU.

## Cyflawni newid gyda'n gilydd ar draws y DU

**Yng Ngogledd Iwerddon,** gyda Grŵp Gwella Bywydau Gwaith Deintyddion a Meddygon Iau yr Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon), mae ein ffocws ar argymhellion sy'n ymwneud â lles meddygon dan hyfforddiant. Yn ogystal, rydym wedi croesawu gweithgarwch ymgysylltu gyda Chanolfan Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Fforwm Arweinwyr Meddygol Gogledd Iwerddon am y materion pwysig hyn.

**Yn Lloegr,** roedd sefydliadau gan gynnwys GIG Lloegr ac NHS Improvement, CQC, Cyflogwyr GIG, BMA a Chymdeithas y Cleifion, wedi cynnig dirnadaeth ddefnyddiol, gan awgrymu blaenoriaethau y dylid gweithredu yn eu cylch, gan gynnwys: gwella ymddygiad arweinyddiaeth glinigol a chynorthwyo gweithgarwch gweithio fel tîm amlddisgyblaethol; mynediad gwell i ddarpariaeth ymsefydlu, cymorth a datblygiad parhaus; alinio fframweithiau rheoliadol; dull gweithredu mwy cyson tuag at arweinyddiaeth dosturiol; a llwythi gwaith.

**Yn yr Alban,** rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid lles y gweithlu meddygol ar y cyd â Chymdeithas Meddygol Prydain (BMA) a chydweithwyr yn yr Alban. Bydd y grŵp yn cynorthwyo rhaglen waith ar y cyd i wella a chynorthwyo lles meddygon yn yr Alban. Yn ogystal, rydym yn eistedd ar Grŵp Trosolwg Rhwydwaith Iechyd Meddwl y Llywodraeth, gan gynrychioli'r rheolyddion proffesiynol.

**Yng Nghymru,** mae ein perthynas gynhyrchiol gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi ein galluogi i gynorthwyo mentrau sy'n cyd-fynd yn agos gyda'n blaenoriaethau, megis arweinyddiaeth dosturiol, ymsefydlu gwell, a chymorth ar gyfer lles meddygon. Yn 2020, cyfarfûm gyda Phennaeth Data y Gweithlu a Dadansoddeg AaGIC er mwyn eu briffio ynghylch sut y gall ein data ni gynorthwyo eu cynlluniau cyflawni ar gyfer Strategaeth Gweithlu Cymru. Yn ogystal, rydym yn cydweithio'n agos gyda'r colegau brenhinol meddygol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac AaGIC ynghylch triongli'r data yr ydym oll yn ei ddal er mwyn creu darlun o'r gweithlu presennol a gweithlu y dyfodol.

## Cydweithio er mwyn gwella addysg a hyfforddiant meddygol ynghylch anhwylderau bwyta

Ym mis Rhagfyr 2017, nododd yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd (PHSO) broblemau gyda'r gofal a'r driniaeth ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau bwyta. Cyhoeddwyd adroddiad PHSO, *Ignoring the alarms: How NHS eating disorder services are failing patients*, yn dilyn eu hymchwiliadau i farwolaethau Averil Hart a dau achos dienw.

Ers y cyhoeddwyd yr adroddiad, rydym wedi adolygu ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant ynghylch anhwylderau bwyta, ac rydym wedi nodi arfer da yn ogystal â bylchau. Yn ystod 2020, bu ein ffocws ar wella'r adnoddau hyfforddiant ynghylch anhwylderau bwyta. Yn gynnar, cytunom gydag arweinwyr Rhaglen Sylfaen y DU ac eDdysgu ar gyfer Gofal Iechyd y byddem yn datblygu adnoddau e-ddysgu pwrpasol newydd ar gyfer meddygon sylfaen a meddygon sy'n cael hyfforddiant arbenigol.

Gweithiom gyda Beat, elusen anhwylderau bwyta y DU, ac eraill i ddatblygu pecyn hyfforddiant newydd ar gyfer myfyrwyr meddygol a meddygon sylfaen.

Yn ystod yr hydref 2020, gweithiom gyda chyfreithwyr NHSE/I er mwyn cyfrannu at gwêst i farwolaeth Averil Hart. Yn ystod y cwêst, disgrifiom ein gwaith parhaus i wella'r gofal ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau bwyta trwy gyfrwng gwell addysg a hyfforddiant.

Fel aelod o'r grŵp cyflawni, rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn mesur y cynnydd y mae cryn angen amdano yn erbyn argymhellion PHSO.

> Rydym wrth ein bodd o gael cyhoeddi ein bod wedi creu pecyn addysg ynghylch **#AnhwylderauBwyta** i ysgolion meddygol a rhaglenni hyfforddiant sylfaen, ar y cyd ag **@NHS_HealthEdEng** ac **@rcpsychEDF** a gyda chymorth **@gmcuk** - Beat

## Cydweithio er mwyn deall meysydd pryder sy'n codi dro ar ôl tro ar draws gofal mamolaeth

Trwy gydol 2020, buom yn cydweithio'n agos gyda CQC ac NMC i gyfuno ein hymateb i faterion parhaus ac sy'n codi dro ar ôl tro mewn gwasanaethau mamolaeth yn Lloegr. Prif nod y gwaith hwn oedd gwella'r ddirnadaeth ar y cyd, er mwyn i ni allu cynorthwyo meddygon a darparwyr gofal iechyd mewn ffordd well, yn ogystal ag alinio ein hymyriadau a'n dull gweithredu rheoliadol. Gyda'n gilydd, llwyddom i sicrhau cynnydd yn 2020 trwy:

- driongli ein data a'n canlyniadau o ymchwiliadau hanesyddol, er mwyn creu rhestr ar y cyd o feysydd sy'n peri pryder
- cynnal digwyddiad bord gron ar y cyd ym mis Tachwedd 2020 gyda sefydliadau allweddol lluosog er mwyn cadarnhau consensws ynghylch materion sylfaenol a nodi gwelliannau
- cytuno i ddatblygu dirnadaeth bellach ynghylch gwasanaethau mamolaeth.

Yn ogystal, rydym yn mynd trwy'r broses o ddatblygu platfform data ar y cyd ag NMC a CQC er mwyn cyfuno'r wybodaeth yr ydym yn ei dal at ddibenion dadansoddi risg ar y cyd. Byddwn yn adolygu'r offeryn platfform data hwn a rennir er mwyn gweld a yw'r dull hwn yn ddefnyddiol er mwyn creu dirnadaeth ynghylch mamolaeth hefyd.

Yn ogystal, bu'r grŵp cydweithio yn trafod y gwaith ar ddiogelwch cleifion ac ymddygiad proffesiynol, y mae ein timau Allgymorth, gydag NMC, yn ei ddatblygu mewn ffordd sy'n gysylltiedig gyda gwasanaethau mamolaeth.

Gan ymateb i'r galw gan wasanaethau mamolaeth yn Nwyrain Lloegr, aethom ati i beilota sesiwn ragweithiol rhith er mwyn cynorthwyo darparwyr gyda newidiadau diwylliant hanfodol. Roedd 95% o'r rhai a fynychodd o'r farn bod y sesiwn yn 'dda' neu'n 'dda iawn', a byddai 93% yn ei hargymell i'w cydweithwyr.

Bellach, mae sesiynau wedi cychwyn gyda Basildon (Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth a De Essex) ac mae trafodaethau cynllunio yn cael eu cynnal gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Brenhines Elizabeth Kings Lynn. Bwriadwn ehangu cyrhaeddiad y sesiynau hyn, a'u datblygu gyda chymorth gweithdai wyneb-yn-wyneb pan fydd cyfyngiadau'r pandemig yn golygu y bydd modd gwneud hyn.

## Gweithio gyda phartneriaid i roi sylw i risgiau i ddiogelwch cleifion yn gynharach

Mae gennym gyfrifoldeb hanfodol gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y DU i rannu ein dirnadaeth a'n gwybodaeth unigryw, a chydweithio er mwyn helpu i atal materion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion. Dros y blynyddoedd diwethaf, ceisiwyd meithrin trefniadau cyfathrebu, cydweithio a chydlynu mwy effeithiol, fel y gallwn nodi risgiau a mynd i'r afael â nhw yn gynharach.

Mae ein Fforwm Gwybodaeth am Ddiogelwch Cleifion yn darparu platfform mewnol er mwyn rhannu risgiau a uwchgyfeiriwyd, risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau parhaus i ddiogelwch cleifion ac arfer meddygol. Mae'r mentrau ar y dudalen nesaf yn cyd-fynd â'n mecanweithiau mewnol er mwyn rhannu gwybodaeth ar draws CMC.

**Gogledd Iwerddon.** Cytunom adolygu ein trefniadau rhannu gwybodaeth gyda'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA), gan ystyried cyfleoedd i wneud mwy o gydweithio er mwyn gwella diogelwch cleifion yng Ngogledd Iwerddon.

Trwy gydol 2020, buom yn diweddaru'r Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon) yn rheolaidd am newidiadau, gan barhau i gynnig cyngor i feddygon wrth iddynt wynebu cymhlethdodau ffyrdd newydd o weithio.

Yn ogystal, cynorthwyom Brifysgol y Frenhines Belfast ac Asiantaeth Hyfforddiant Meddygol a Deintyddol Gogledd Iwerddon (NIMDTA) er mwyn galluogi camau i leoli myfyrwyr meddygol blwyddyn olaf yn y gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gynharach.

**Cymru.** Yng Nghymru, rydym yn mynychu uwchgynhadledd chwemisol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), sy'n dwyn ynghyd arolygiaethau a sefydliadau diogelwch cleifion yn benodol er mwyn rhannu gwybodaeth am ddarparwyr.

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi cydweithio'n agos gydag AGIC a phartneriaid rheoliadol gofal iechyd eraill ar effaith y pandemig ar wasanaethau a gweithwyr iechyd proffesiynol. Yn ogystal, rydym yn cydweithio'n agos gyda nhw ar adolygiad Cymru gyfan ynghylch gwasanaethau mamolaeth, ac ynghylch Cwm Taf yn benodol, y mae eu gwasanaethau yn parhau i fod yn destun mesurau arbennig.

Ym mis Hydref, cawsom gyswllt gydag AGIC er mwyn diweddaru a chryfhau ein trefniadau rhannu gwybodaeth ac er mwyn ystyried cyfleoedd i gydweithio er mwyn gwella diogelwch cleifion.

**Yr Alban.** Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth yr Alban, NHS Education for Scotland, Healthcare Improvement Scotland (HIS) a rheolyddion proffesiynol a system eraill er mwyn sicrhau gweithrediad protocol pryderon sy'n dod i'r amlwg ar gyfer yr Alban. Sefydlwyd gweithgor gan GIS, ac er y bu'n rhaid oedi'r gwaith o ganlyniad i'r pandemig, mae'r grŵp wedi ailgynnull, ac rydym wedi bod yn cynorthwyo HIS gyda drafft cychwynnol y protocol arfaethedig ar gyfer yr Alban.

Ar ddechrau'r pandemig, sefydlom alwad wythnosol gyda rheolyddion proffesiynol eraill yn yr Alban. Roedd y galwadau hyn wedi ein galluogi i rannu profiadau ynghylch COVID-19 a nodi'r pryderon ar y cyd yr oedd angen eu huwchgyfeirio. Rydym yn parhau i gyfarfod i drafod blaenoriaethau a rennir, a thrwy wneud hynny, rydym yn cynnig sicrwydd i Lywodraeth yr Alban ynghylch aliniad rheoliadol.

**Lloegr.** Ers i ni lansio Protocol Pryderon sy'n dod i'r Amlwg gydag wyth rheolydd arall yn 2018, mae wedi cael ei ysgogi naw gwaith, gan atal materion difrifol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion. Mae'r protocol yn cryfhau ein trefniadau presennol ac mae'n annog diwylliant agored, lle y gellir rhannu pryderon am risgiau i gleifion yn gynnar, a lle y gellir cydlynu unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol ymhlith sefydliadau perthnasol.

Yn ogystal, rydym yn aelodau o'r Fforwm Rheolyddion Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Grwpiau Trosolwg Strategol ar y Cyd – ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r fforymau hyn yn ein galluogi i alinio ein dull gweithredu gyda phartneriaid, rhannu dirnadaeth a dysgu, a chynorthwyo ymddiriedolaethau.

# Cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn

## Cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith

Gall cynnwys cleifion a'r cyhoedd wrth ddatblygu ein harweiniad a'n polisïau helpu i wella profiadau a chanlyniadau gofal iechyd pawb. Mae'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn gwneud mwy ohono dros y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2018 a 2020, mae dros 1,100 o gleifion ac aelodau'r cyhoedd wedi cymryd rhan yn ein hymgynghoriadau, gan gynnwys ynghylch *arweiniad Gwneud penderfyniadau a chaniatâd* ac *Adborth cleifion ar gyfer ailddilysu*. Rydym wedi ymrwymo i ychwanegu at y datblygiad pwysig hwn, yn arbennig er mwyn i ni allu cynrychioli anghenion amrywiol pob claf.

Yn 2020, estynnom wahoddiad i gynrychiolwyr o Stonewall ac o GLADD (Cymdeithas Meddygon a Deintyddion LGBT) i gyfrannu at ein gwybodaeth newydd i gleifion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Fel rhan o'n cynhadledd 2020, ymunodd Olivia Butterworth, Pennaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer NHSE/I â'n sesiwn trafodaeth panel 'I ble yr awn o'r fan hon? Dyfodol gofal iechyd ar ôl y pandemig'.

Yn ogystal, cynhaliom bedair sesiwn bord gron gyda chynrychiolwyr cleifion a'r cyhoedd ar draws y DU yn ystod y digwyddiad, gan wahodd eu mewnbwn gwerthfawr i rai meysydd gwaith y rhoddir blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys ein gwaith cyfeirio gwell, presgripsiynu o bell a'n strategaeth gorfforaethol newydd. Bu'n gyfle gwych i ni gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y proffesiynau cymdeithion y byddwn yn eu rheoleiddio cyn bo hir. Mynychodd Bonesig Clare Marx, Cadeirydd y Cyngor, ac Una Lane, ein Hyrwyddwr Cleifion, y sesiynau bord gron.

Yn ogystal â chynnwys cleifion yn ein gwaith, rydym yn awyddus i ddysgu mwy ganddynt am eu rhyngweithiadau gyda ni, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig. Mae ein Huned Perthnasoedd Strategol newydd yn ymgynghori gyda sefydliadau cynrychioli cleifion yn rheolaidd am ein polisïau a'n mentrau.

> Mae cleifion yn dymuno cael eu gweld gan bobl sy'n gallu eu gweld i gyd ac nid cael eu gwthio o gwmpas y system', dywedodd **@LiviButt.** Mae hi'n amlygu'r ffaith bod y claf yn aelod canolog o'r tîm gofal iechyd. Mae hi'n gofyn: 'sut allwn eu dwyn i mewn i sgwrs y tîm?' **#GMCconf20**

## Cynorthwyo pobl sy'n mynegi pryder am feddyg

Gall mynegi pryder fod yn brofiad brawychus. Rydym wastad yn ceisio cynnig yr help y mae ei angen arnynt i bawb, ynghyd â'r tosturi y maent yn ei haeddu yn ystod cyfnod sy'n gallu bod yn anodd iawn.

### Ein Gwasanaeth Cyswllt Cleifion

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cleifion (PLS) yn cynnig cymorth personol a phwrpasol i gleifion, eu perthnasau, neu aelodau'r cyhoedd sydd wedi mynegi pryder am addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol. Rhwng 2018 a 2020, cefnogodd tîm PLS dros 1,200 o gleifion, perthnasau, ac aelodau'r cyhoedd yr oeddent wedi mynegi pryderon am feddyg. Yn 2020, cyflawnwyd hyn mewn ffordd rith yn bennaf (gweler tudalen 15). Bob blwyddyn, roedd dros 90% o'r bobl a holwyd am eu profiad PLS o'r farn y bu'r gwasanaeth o gymorth.

> Rhoddwyd amser i mi leisio unrhyw bryderon a chwestiynau. Roeddwn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn fy neall. Rhoddwyd esboniad llawn a chlir i mi o'r broses a fyddai'n digwydd.
>
> - Claf a fanteisiodd ar y gwasanaeth cyswllt

### Defnyddio adborth er mwyn gwella ein cymorth

Rydym yn defnyddio adborth er mwyn parhau i gryfhau ein prosesau a gwella eglurder ynghylch yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gennym. Arweiniodd hyn at y canlynol:

- rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth ffôn i bobl nad ydynt yn gallu mynegi eu sylwadau i ni yn ysgrifenedig – cawsom 465 o alwadau trwy'r gwasanaeth hwn yn ystod 2020
- cyhoeddom *Ein siarter ar gyfer cleifion, perthnasau a gofalwyr*, sy'n nodi'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn mynegi pryder i ni.

Ac yn hollbwysig, rydym bellach yn adolygu ac yn gweithredu ar sail yr adborth a gawsom ers cyhoeddi'r siarter, gan gynnwys pa mor hir y gall ymchwiliad ei gymryd, y profiad o roi tystiolaeth mewn gwrandawiad MPTS, a pha mor aml yr ydym yn darparu gwybodaeth i gleifion yn ystod ymchwiliad.

### Cynorthwyo meddygon sy'n mynegi pryder

Mae ein canolfan codi llais yn darparu cyngor i feddygon sy'n dymuno mynegi pryder. Mae'n cyd-fynd â'r gwaith y mae ein cynghorwyr cyswllt yn ei wneud gyda'r Gwarcheidwaid Rhyddid i Godi Llais sy'n gweithio ar draws Lloegr.

Rydym yn gweithredu rhagofalon ar gyfer meddygon sy'n mynegi pryderon budd y cyhoedd, gan gynnwys mynnu bod sefydliad yn datgelu pan fydd meddyg a gyfeiriwyd wedi mynegi pryder ac os ymchwiliwyd i'r pryder. Wrth wneud cyfeiriad, rhaid i swyddogion cyfrifol ddarparu datganiad o'r gwirionedd hefyd, gan gadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn deg ac yn gywir. Un mecanwaith yn unig yw hwn o blith nifer yr ydym yn eu gweithredu er mwyn diogelu'r sawl sy'n chwythu'r chwiban.

Yn 2020, dangosodd ein hadroddiad *Cynorthwyo meddygon agored i niwed – Newidiadau er mwyn cynorthwyo meddygon sy'n destun ymchwiliad yn well* effaith bwysig y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud i'n prosesau ymchwilio a'r cymorth yr ydym yn ei gynnig. Er ei fod yn gadarnhaol, mae ein ffocws ar gynorthwyo meddygon agored i niwed yn ddull gweithredu hirdymor ac nid yw'n gysylltiedig gyda rhaglen waith unigol yn unig.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n rhyngweithio gyda ni – trwy ein prosesau neu ein gweithgarwch cyfathrebu – yn profi empathi ac effeithlonrwydd. Fel yr ydym yn nodi yn ein strategaeth newydd ar gyfer 2021-2025, bydd 'Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig' yn allweddol bwysig wrth barhau i gryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn.

## Ymgysylltu gyda phobl mewn ffordd sy'n bodloni eu hanghenion

Ein Canolfan Gyswllt yw'r pwynt cyswllt cyntaf i nifer o bobl sy'n rhyngweithio gyda ni. Yn 2020, atebont 178,823 o alwadau ac ymatebont i 116,205 o negeseuon e-bost a llythyrau.

Cydnabuwyd ymrwymiad y tîm i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn y ffaith eu bod wedi sicrhau achrediad Marc Gwasanaeth gan y Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid. Ym mis Ebrill 2020, er gwaethaf effaith y pandemig, roedd 85% o'r bobl a holwyd yn falch gydag ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan ein cynghorwyr wrth ymateb i arolygon cwsmeriaid – o'i gymharu â meincnod allanol o 76.9% ar gyfer y diwydiant.

Er 2019, rydym wedi peilota cyfleuster Sgwrsio Byw hefyd, sy'n cynnig rhagor o ddewisiadau i'r cyhoedd ac i feddygon gysylltu â ni trwy ein gwefan, mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Mae'n arbennig o fuddiol i'r bobl hynny sy'n ei chael hi'n anodd cysylltu â ni dros y ffôn efallai. Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020, roedd 84% o bobl a fanteisiodd ar y cyfleuster Sgwrsio Byw yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

Yn ogystal, cyflwynom Facebook Messenger fel sianel i feddygon ac aelodau'r cyhoedd siarad gyda'r Ganolfan Gyswllt. Ar y sianel hon yn unig, roedd 6,877 o bobl wedi cysylltu â ni, gan anfon 107,520 o negeseuon. Law yn llaw â hyn, ym mis Tachwedd 2020, lansiom gyfrif Instagram i fyfyrwyr meddygol y DU, lle y rhannom negeseuon ynghylch lles, arweiniad moesegol a chofrestriad amodol.

## Trawsnewidiad digidol

Mae ein rhaglen Trawsnewidiad Digidol 2020 wedi bod yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn cyfathrebu, yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio gyda'n cwsmeriaid ar-lein – gan sicrhau ein bod yn cynnig profiad gwell i'r cyhoedd ac i feddygon ar draws ein sianelau digidol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, lansiom wefan CMC wedi'i hailwampio yn 2018. Ers hynny, mae'r niferoedd sy'n edrych ar ein tudalennau arweiniad moesegol bob mis wedi codi o 153,953 ym mis Mai 2018 i 265,578 ym mis Ionawr 2020. Mae hwn yn arwydd cadarnhaol bod ein harweiniad – a gynlluniwyd er mwyn helpu meddygon i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion – yn cyrraedd mwy o bobl.

Mae hygyrchedd yn rhan ganolog o'n gweithgarwch cyfathrebu. Yn ogystal, rydym yn cynnig nifer o'n cynhyrchion cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffurfiau hygyrch, gan gynnwys fersiynau hawdd i'w darllen, fersiynau print mawr a fersiynau mewn ieithoedd eraill.

## Cyfryngau cymdeithasol

Gyda dyfodiad y pandemig, mae cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn fwy hanfodol fyth fel offeryn cyfathrebu. Mae'n ein helpu i rannu gwybodaeth bwysig yn gyflym, a chysylltu gyda phobl ar lefel fwy personol.

| Cyrhaeddiad Facebook: | Argraffiadau twitter: | Cyrhaeddiad LinkedIn: |
|---|---|---|
| | | |

Roedd rhywfaint o'n gwaith allweddol ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod 2020 yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'n harweiniad wedi'i ddiweddaru, *Gwneud penderfyniadau a chaniatâd*
- rhannu diweddariadau rheolaidd ynghylch PLAB a llwybrau cofrestru ar gyfer IMGs, gan gynnwys diweddariadau am gyfnodau archebu, arholiadau wedi'u canslo, cynnal arholiadau yn unol â threfniadau cadw pellter cymdeithasol, llwybrau cofrestru amgen a sesiynau Holi ac Ateb
- Athro Colin Melville, Cyfarwyddwr Addysg a Safonau, a Greta McLachlan, Cymrawd Clinigol, yn cynnal sgwrs dros Twitter er mwyn rhannu ychydig gyngor ar gyfer meddygon newydd ym mis Gorffennaf.

Trwy gydol y pandemig, defnyddiom ein e-fwletinau hefyd er mwyn anfon negeseuon cefnogol i feddygon, myfyrwyr meddygol, hyfforddwyr a hyfforddeion.

Mae sicrhau bod pawb yn gallu troi at wybodaeth yn hawdd, a rhyngweithio gyda ni, boed hynny mewn ffordd ddigidol, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb, wrth wraidd ein nod strategol newydd, sef 'Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn cyfrif'.

# Bodloni anghenion y gwasanaethau iechyd ar draws pedair gwlad y DU, sy'n newid

## Ein presenoldeb yn y DU

Mae gennym bum swyddfa ar draws y DU, ynghyd â nifer o gydweithwyr sy'n gweithio o bell. Mae cydweithwyr CMC yn Lloegr yn cynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol a'r cyhoedd ar draws pedair gwlad y DU.

| | |
|---|---|
| **Yr Alban** | |
| Meddygon trwyddedig | 24,114 |
| Cydweithwyr CMC | 12 |
| **Gogledd Iwerddon** | |
| Meddygon trwyddedig | 7,800 |
| Cydweithwyr CMC | 9 |
| **Lloegr** | |
| Meddygon trwyddedig | 244,799 |
| Cydweithwyr CMC (Manceinion) | 1,169 |
| Cydweithwyr CMC (Llundain) | 151 |
| **Cymru** | |
| Meddygon trwyddedig | 12,274 |
| Cydweithwyr CMC | 8 |
| **Heb fod yn y DU, gan gynnwys Ynysoedd y Sianel** | |
| Meddygon trwyddedig | 8,631 |

Mae cydweithwyr CMC yn Lloegr yn cynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol a'r cyhoedd ar draws pedair gwlad y DU.

## Cryfhau ein cysylltiadau lleol ar draws y DU

Lansiwyd ein gwasanaethau Allgymorth newydd ar ddechrau 2020, gan ddwyn ynghyd gwaith ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws pedair gwlad y DU.

Mae cynghorwyr allgymorth yn rhan annatod o'n sefydliad, ac maent yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth gynorthwyo systemau gofal iechyd y DU, gan weithio gyda meddygon, darparwyr gofal iechyd, addysgwyr a rheolyddion eraill er mwyn:

- gwella dealltwriaeth o'n rôl
- dysgu am yr amgylcheddau y mae meddygon yn gweithio ynddynt, gan helpu i nodi a rhoi sylw i risgiau i gleifion a meddygon cyn y bydd niwed yn digwydd
- helpu swyddogion cyfrifol i roi sylw i bryderon am feddygon a chynorthwyo rheolwyr gyda phryderon ar lefel leol
- cynorthwyo datblygiad parhaus systemau llywodraethu clinigol lleol, gan sicrhau bod ailddilysu yn parhau
- hyrwyddo a chynorthwyo rhagoriaeth ym maes addysg, hyfforddiant ac arfer meddygol.

Maent yn ein helpu i fwrw ymlaen gyda'r argymhellion yn ein rhaglen *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau,* ac mae hynny'n rhywbeth hanfodol. Darllenwch fwy am y gwaith pwysig hwn o dudalen 31.

Oherwydd y pandemig, bu'n rhaid i'r tîm addasu'r cynllun ar gyfer y flwyddyn yn gyflym, gan symud i ymgysylltu rhith, er mwyn parhau i gynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ystod cyfnod o bwysau mawr. Fel rhan o weithgarwch cynllunio ar gyfer adferiad y llynedd, cysylltodd cynghorwyr cyswllt rhanbarthol a chenedlaethol allgymorth gyda dros 70 o'n rhanddeiliaid allweddol ar draws y bedair wlad er mwyn sicrhau bod eu hanghenion wrth wraidd creu ein cynnig ymgysylltu rhith.

Trwy gydol 2020, ymgysylltodd cynghorwyr cyswllt rhanbarthol a chenedlaethol allgymorth gyda dros 23,000 o feddygon, myfyrwyr meddygol a grwpiau diddordeb eraill allweddol, gan gynnwys grwpiau cleifion. Roedd hwn yn is na maint ein cyrhaeddiad arferol am sawl rheswm, gan gynnwys capasiti y system i ymgysylltu mewn ffordd rith a gallu meddygon i fynychu hyfforddiant.

Mae ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr ym mhedair gwlad y DU yn cynorthwyo cyflogwyr o sefydliadau gan gynnwys GIG, y sector annibynnol, a sefydliadau iechyd meddwl. Roeddent yn gallu addasu i gymorth rhith yn gyflym ar gyfer swyddogion cyfrifol yr oeddent dan bwysau aruthrol. Cwblhaodd y gwasanaeth dros 1,470 o gyfarfodydd gyda swyddogion cyfrifol – 96% o'r hyn a gynlluniwyd – yn ystod 2020.

## Rheoli effaith ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Roedd dros 23,000 o feddygon yr oeddent wedi cymhwyso yn AEE ar y gofrestr feddygol yn 2020. Maent yn rhan hanfodol o weithlu meddygol y DU. O'r herwydd, mae wedi bod yn bwysig i ni geisio dylanwadu ar y trafodaethau rhwng y DU ac UE er mwyn sicrhau bod y berthynas yn y dyfodol yn ein caniatáu i barhau i gofrestru meddygon sydd wedi cymhwyso yn AEE mewn ffordd amserol a syml.

Ar 1 Ionawr 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth newydd er mwyn caniatáu i ni, a rheolyddion gofal iechyd eraill, barhau i gydnabod cymwysterau AEE am gyfnod cyfyngedig. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn golygu y gallwn sicrhau parhad o ran llif meddygon sydd wedi cymhwyso yn AEE i'r DU am hyd at ddwy flynedd.

Ym mis Awst 2020, cyfrannom at alwad Llywodraeth y DU am dystiolaeth er mwyn casglu dirnadaeth ynghylch cydnabyddiaeth cymwysterau proffesiynol a rheoleiddio proffesiynau. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at gynlluniau yn y dyfodol er mwyn cydnabod cymwysterau rhyngwladol ar ôl diwedd y cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd.

Ar nodyn pwysig, mae ymadawiad y DU o UE yn cynnig cyfle i adolygu'r broses o gydnabod a rheoleiddio proffesiynau yn ehangach. Dyma pam ein bod wedi galw am greu fframwaith pwrpasol newydd yn ein hymateb i'r alwad am dystiolaeth – un sy'n parchu neilltuolrwydd y sector gofal iechyd a'i ffocws ar ddiogelwch cleifion, ac sy'n caniatáu iddo ddargyfeirio, yn ôl yr angen, o fframweithiau proffesiynol eraill nad yw iechyd a diogelwch yn hollbwysig iddynt.

Yn fwy cyffredinol, gweithiom gyda swyddogion Llywodraeth y DU a'n cymheiriaid rheoleiddio meddygol rhyngwladol hefyd er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei gydnabod ac yn cael ei ddiogelu mewn unrhyw gytundebau masnach a lofnodir yn y dyfodol rhwng y DU a gwledydd eraill.

## Cyflwyno trefniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC

Yn dilyn lansiad y fframwaith ar gyfer trefniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC ar gyfer meddygon yn 2019, rydym wedi cychwyn ar broses weithredu fesul cam. Cychwynnodd hwn wrth fynd â phump trefniant o ran cymwysterau a fabwysiadwyd yn gynnar mewn meysydd blaenoriaeth trwy ein prosesau ar gyfer cymeradwyo cwricwla ôl-raddedig: seiciatreg cyswllt, niwroradioleg ymyriadol (strôc aciwt), meddyginiaeth poen, llawfeddygaeth gosmetig, a meddygaeth o bell ac mewn ardaloedd gwledig.

Wrth brofi pa mor dda y mae ein prosesau cymeradwyo yn gweithio ar gyfer trefniant o ran cymwysterau, parhaom i ddatblygu ac ymgysylltu ynghylch polisi ar gyfer y ffordd y dyfarnir cymwysterau i feddygon, a sut y byddant yn cynnal eu cydnabyddiaeth ar Restr yr Ymarferwyr Meddygol Cofrestredig. Yn ogystal, parhaom i archwilio sut y byddwn yn nodi ac yn blaenoriaethu meysydd arfer ar gyfer trefniant o ran cymwysterau yn y dyfodol.

Bwriedir i'n fframwaith trefniant o ran cymwysterau wella diogelwch cleifion trwy alluogi meddygon i hyfforddi mewn maes arfer penodol y tu allan i hyfforddiant arbenigedd, lle y ceir angen o ran diogelwch cleifion neu ofyniad arwyddocaol gan wasanaeth. Fe'i cynlluniwyd i helpu'r proffesiwn i addasu i anghenion cleifion yn y dyfodol, gan gynnal safonau cyson ar draws y DU, a bydd yn helpu i sicrhau bod hyfforddiant yn fwy hyblyg.

Erbyn diwedd 2020, roedd y pum mabwysiadwr cynnar wedi cyflwyno datganiadau diben ar gyfer y cam cymeradwyo cyntaf, ac roedd dau wedi cyflwyno cwricwla llawn. Disgwyliwn y caiff y rhan fwyaf o'r rhain eu cymeradwyo erbyn yr haf 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, gwrandawom ar randdeiliaid o bob mabwysiadwr cynnar wrth iddo symud trwy bob cam cymeradwyo. Yn ogystal, clywsom adborth ynghylch polisïau sy'n datblygu,

yr ydym wedi dechrau ei werthuso.

Yn 2021, byddwn yn ystyried yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'r cam mabwysiadu cynnar a byddwn yn datblygu fframwaith diwygiedig. Yna, byddwn yn cynnal pwynt adolygu gyda gweithgarwch ymgysylltu pellach, gan adrodd am ein canfyddiadau, cyn cychwyn ar weithrediad llawn a derbyn cyflwyniadau pellach i'w cymeradwyo.

## Paratoi ar gyfer rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia

Ar hyn o bryd, mae tua 2,000 o gymdeithion meddygol (PAs) a 180 o gymdeithion anesthesia (AAs) yn gweithio yn y DU a disgwyliwn i'r niferoedd hyn godi fesul tipyn dros y blynyddoedd nesaf. Gan weithio fel rhan o'r tîm clinigol, ceir potensial anferth i'r cymdeithion proffesiynol hyn gryfhau gweithlu clinigol y DU, gwella gofal ar gyfer cleifion, a lleddfu'r pwysau ar feddygon.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddem yn cael y cyfrifoldeb dros reoleiddio'r cymdeithion meddygol proffesiynol hyn[13]. Ers hynny, ym mis Mai 2020, cymeradwyodd DHSC ein hachos busnes, gan gytuno y byddai Llywodraeth y DU yn talu'r holl gostau gosod. Mae hyn yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiad i beidio defnyddio unrhyw arian y byddwn yn ei gael am reoleiddio meddygon er mwyn gweithredu'r broses o reoleiddio AA a PA.

Cyn i ni allu dechrau rheoleiddio PAs ac AAs, mae angen i Lywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i weithio gyda'n prif bartneriaid ar draws y DU er mwyn datblygu ein dull gweithredu tuag at reoleiddio, ynghyd â'n polisïau a'n gweithdrefnau. Trwy gydol 2020, roedd cynrychiolwyr o bob cwr o'r DU wedi mynychu a chyfrannu at ein Grŵp Ymgysylltu Allanol am y mater yn rheolaidd.
Yn ogystal, cynhaliom arolwg a gynlluniwyd i ddarganfod mwy am fyfyrdodau a phrofiadau gweithio fel neu gyda PA neu AA, er mwyn ein helpu i ddatblygu safonau proffesiynol perthnasol. Ymatebodd 1,147 o bobl i'r arolwg, a lansiwyd ym mis Mehefin 2020. Dilynwyd hyn gyda chyfres o grwpiau ffocws ym mis Rhagfyr 2020.

Ysgrifennodd Colin Melville, Cyfarwyddwr Addysg a Safonau, at is-gangellorion ysgolion meddygol er mwyn rhannu ein dull sicrhau ansawdd a'n safonau interim ym mis Gorffennaf 2020.

[13] Mae cymdeithion meddygol (PAs) yn gweithio ar draws amrediad o feysydd arbenigol o fewn GIG, mewn ysbytai ac ym maes arfer meddygol, gan gymryd hanes, archwilio, rhoi diagnosis, rheoli a thrin cleifion. Mae cymdeithion anesthesia (AAs) yn cynorthwyo'r broses o ddarparu anesthesia cyffredinol a gofal critigol. Maent yn cynnal asesiadau ac ymyriadau cyn llawdriniaethau ac ar ôl llawdriniaethau dan oruchwyliaeth anesthetydd ymgynghorol.

Ym mis Medi 2020, cyhoeddom ganllaw newydd ar y we ar gyfer PAs ac AAs er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio. Mae'r tudalennau ar y we yn darparu manylion ynghylch sut y bydd rheoleiddio yn edrych, y trefniadau cofrestru a phontio a rhai cwestiynau cyffredin ynghylch cofrestru. Law yn llaw â hyn, rydym yn rhannu datblygiadau gyda PAs ac AAs yn rheolaidd, ac yn gofyn iddynt rannu eu safbwyntiau nhw trwy gyfrwng e-fwletin pwrpasol.

## Diwygio addysg mewn byd sy'n esblygu

Wrth i'r pandemig barhau, mae'r gwasanaeth iechyd a gofal ar gyfer cleifion dan bwysau cynyddol. Mae'r system gyfan wedi gweithredu i roi sylw i hyn, pan fo modd, gan alluogi datrysiadau arloesol i alwadau ar y gweithlu.

Law yn llaw â'r mesurau hyn, ceir cyfleoedd go iawn i wneud newidiadau ystyrlon i addysg a hyfforddiant meddygol. Yn y tymor byr, mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y gwasanaeth, heb golli golwg ar yr hyfforddiant. Yn y tymor hwy, mae angen i ni weithio ar draws y system er mwyn rheoli piblinell yr hyfforddeion, gan sicrhau eu bod yn gallu meithrin gwybodaeth a sgiliau er mwyn bodloni'r safonau yr ydym yn eu mynnu. Mae'r pandemig wedi cynnig cyfle i feddwl mewn ffordd wahanol am y ffordd y caiff hyfforddiant ei drefnu, y ffordd y caiff meddygon eu hasesu, a'r ffordd y byddwn yn rheoli'r cydbwysedd rhwng gwasanaeth a hyfforddiant.

Ym mis Tachwedd 2020, tynnom randdeiliaid ar draws y DU ynghyd i nodi egwyddorion y gellir eu defnyddio ar draws y system er mwyn cynnig sail i benderfyniadau a wneir ynghylch strwythur ac ansawdd addysg a hyfforddiant. Er bod nifer o wersi i'w dysgu o'r ffordd y mae myfyrwyr, meddygon, hyfforddwyr a hyfforddeion wedi addasu yn ystod yr argyfwng hwn, cytunom ar bedwar maes allweddol lle y byddai modd ymwreiddio newidiadau a wnaethpwyd yn ystod y pandemig mewn addysg a hyfforddiant.

- **Dilyniant trwy addysg a hyfforddiant meddygol –** datblygu newidiadau a wnaethpwyd i gwricwla ac asesiadau er mwyn datblygu ffordd fwy dilys o asesu sy'n gwerthuso gwybodaeth a sgiliau cymhwysol.
- **Cyffredinoliad wrth wasanaethu cleifion a rheoli'r gwasanaeth** – gwella gwerth dysgu a sgiliau cyffredinol a phroffesiynol mewn addysg a hyfforddiant. Yn ystod y pandemig, gwelwyd gweithgarwch adleoli eang a thimau clinigol yn cydweithio mewn ffyrdd newydd, gan ddibynnu ar sgiliau cyffredinol, arbenigol a phroffesiynol er mwyn bodloni'r sialensiau a achoswyd gan COVID-19.
- **Paratoi myfyrwyr meddygol ar gyfer gwaith meddygol** – gwella'r cyfnod pontio i fyfyrwyr meddygol i'r Rhaglen Sylfaen trwy ddysgu gan a ffurfioli'r FiY1 newydd, a gyflwynwyd i gynyddu capasiti y gweithlu yn ystod y gwanwyn 2020.
- **Meddygon fel arweinwyr** – mae datblygu arweinwyr meddygol yn hollbwysig er mwyn rheoli a siapio'r gwasanaeth yn well. Ceir cyfle i integreiddio arweinyddiaeth ym maes addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

Rydym yn cwmpasu'r pedwar maes hwn i'w datblygu yn ystod 2021. Trwy'r gwaith hwn, a thrwy symud tuag at addysg a hyfforddiant meddygol mwy addasol a hyblyg, mawr obeithiwn y bydd y gweithlu yn barod ar gyfer y sialensiau difrifol a fydd yn dod yn sgil amgylcheddau gofal iechyd sy'n newid, cydafiechedd cynyddol, argyfyngau yn y dyfodol, a phwysau ar y gweithlu.

# Ein strategaeth gorfforaethol newydd

Mae *Ein strategaeth 2021–25* yn datblygu uchelgais ein strategaeth flaenorol (2018–20), wrth i bopeth a gyflawnwyd gennym dros y dair blynedd ddiwethaf osod y sylfaen ar gyfer y cam nesaf hwn o'r gwaith[14]. Pwynt hollbwysig yw ei bod yn ymwreiddio popeth yr ydym wedi'i ddysgu o wrando ar y rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu cyfer.

## Gweithio tuag at bedair prif flaenoriaeth

Dros y bum mlynedd nesaf, caiff ein holl waith ei siapio gan bedair thema strategol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth deng mlynedd newydd:

Byddwn yn rheolydd – ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol – ac yn gyflogwr effeithiol, perthnasol a thosturiol.
Byddwn yn meithrin diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn fel cyflogwr.



## Cydweithio

Rydym wedi datblygu ein strategaeth gyda chleifion, partneriaid, gweithwyr meddygol proffesiynol a chydweithwyr, ac ar eu cyfer.
Er y bu'n rhaid i ni addasu ein cynlluniau ymgysylltu allanol oherwydd y pandemig wrth i ni ddatblygu'r strategaeth, roeddem wedi ymrwymo'n fawr i glywed safbwyntiau'r rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw, a'u cynrychioli.

- Cynhaliom drafodaethau gyda'n fforymau Cynghori yn y DU, Grŵp Cyfeirio Swyddogion Cyfrifol, Grŵp Materion Cyhoeddus a Pholisi y Colegau Brenhinol, bord gron Meddygon dan Hyfforddiant, a'r grŵp llywio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I).
- Yn ogystal, rhannom ddrafftiau gyda phartneriaid allweddol, gan ofyn am eu hadborth.

Bydd cydweithio parhaus yn allweddol er mwyn adfer o'r pandemig ac er mwyn cyflawni nodau ehangach ar gyfer y system iechyd.

## Strategaeth hyblyg

Cytunom ar bedair thema ein strategaeth yn fuan cyn i'r pandemig orfodi'r DU weithredu cyfnod clo, ym mis Mawrth 2020. Ers hynny, mae cydweithwyr strategaeth, polisi a dadansoddi wedi cydweithio i gynnal 'profion straen' ar y strategaeth yn erbyn gwahanol sefyllfaoedd ac amserlenni yng ngoleuni'r effaith ar arfer clinigol, gweithlu y DU, agweddau cymdeithasol a'n gweithrediadau. Yn fras, roedd y gwaith hwn yn cadarnhau – gyda rhai mân addasiadau – bod y strategaeth yn gadarn ac yn ddigon hyblyg i'n galluogi i roi sylw i effaith y pandemig mewn ffordd briodol.

Byddwn yn parhau i asesu perthnasedd ein blaenoriaethau, gan fod yn ddigon hyblyg i sicrhau y gallwn addasu a chyflawni wrth i ni gyd weithio mewn byd sy'n gynyddol gymhleth ac ansicr.

A thrwy gydol cyfnod ein strategaeth, byddwn yn asesu ein cynnydd ac yn rhannu hyn trwy ein hadroddiadau blynyddol a thrwy roi diweddariadau i'r Cyngor ar ddiwedd 2022 ac ar ddiwedd 2024.

# Buddsoddi yn ein pobl

Gyda dros 1,000 o gydweithwyr ar draws y DU, mae ein pobl yr un mor bwysig â'n perfformiad a'n cynnydd. Ac yn ystod blwyddyn lle y gwelwyd amgylchiadau heriol, ymrwymont i fynd yr ail filltir er mwyn parhau i gynorthwyo meddygon a chadw cleifion yn ddiogel. Dyma rai o'r ffyrdd yr oeddem yno iddynt, er mwyn iddyn nhw allu bod yno i gleifion a meddygon.

## Iechyd, lles a hyblygrwydd

Ers cyhoeddi *Gofalu am feddygon Gofalu am gleifion* yn 2019, rydym wedi sôn cryn dipyn am bwysigrwydd amgylcheddau cysylltiedig a thosturiol ar gyfer iechyd a lles meddygon. Gellir dweud yr un fath ar gyfer ein cydweithwyr, ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni hynny.

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar ein bywydau dyddiol, gan gynnwys ein hiechyd corfforol a meddyliol. Ein blaenoriaeth ni oedd sicrhau bod cydweithwyr yn cael yr help a'r cymorth yr oedd ei angen arnynt, o weithio mewn ffordd hyblyg, i fanteisio ar swyddogion hyfforddedig a oedd yn gallu darparu cymorth cyntaf meddyliol.

Roedd ein *Cynllun lles* newydd, a gefnogwyd gan ein hyrwyddwyr lles, yn cynnwys rhannu adnoddau cefnogol a hyrwyddo llinell gynghori cymorth cyflogwr. Yn ogystal, diweddarom ein polisïau AD er mwyn cynnig hyblygrwydd ychwanegol i gydweithwyr y mae ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol ac y maent dan bwysau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig. Rydym yn parhau i ddiweddaru'r polisïau hyn wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

## Lle i bawb

Mae pob un o'n cydweithwyr yn unigryw ac rydym yn parhau i wneud penderfyniadau a datblygu mentrau er budd pawb.

Roedd digwyddiadau 2020 wedi amlygu materion sydd wedi bodoli ers tro ynghylch anghydraddoldeb, y mae angen i bob un ohonom gyflawni ein rhan wrth fynd i'r afael â nhw. Mae addysg, codi ymwybyddiaeth a meithrin ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth ein hunain yn hanfodol er mwyn i ni allu delio â'r materion hyn. Gweler tudalen 52 am ragor o wybodaeth am ein hymrwymiadau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae ein rhwydweithiau staff yn cynnig cymorth hynod o bwerus i gydweithwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac maent yn helpu i gyfoethogi bywydau gwaith pawb o fewn CMC. Mae'r rhwydweithiau yn cynnal digwyddiadau ac yn rhannu newyddion yn rheolaidd, ac mae addysgu, cynorthwyo a grymuso unigolion yn nodau pwysig i bob un o'r rhain. Trwy gydol 2020, anogom gydweithwyr i ddarllen adnoddau a argymhellwyd gan ein rhwydweithiau staff, ac i gael trafodaethau agored am yr hyn y gallwn ei wneud eto fel unigolion ac fel sefydliad.

Ym mis Mawrth 2020 hefyd, cyflwynom hyfforddiant gorfodol wedi'i ddiweddaru ynghylch *Trin pobl yn deg* i'r holl gydweithwyr.

## Hyfforddiant a datblygiad

Gall arweinyddiaeth effeithiol gael dylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr, timau a'r sefydliad cyfan, felly mae'n bwysig i ni fuddsoddi mewn arweinwyr. Yn 2020, roedd dros 200 o gydweithwyr wedi cwblhau ein rhaglen arweinyddiaeth ac roedd 80 hanner ffordd trwyddi.

Mae meithrin dealltwriaeth o brofiadau meddygon a chleifion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn parhau i fod yn berthnasol ac yn dosturiol. Ein 'Ciniawau cwdyn brown' yw un o'r ffyrdd yr ydym yn cyflawni hyn. Roedd dros 1,000 o gydweithwyr wedi mynychu'r anerchiadau hyn, gan gynnwys trafodaeth Dr Paul Bowie am ffactorau dynol a myfyrdodau Dr Pearl Hettiaratchy am ei gyrfa, gan gynnwys addasu i fywyd newydd yn y DU a herio gwahaniaethu.

Trwy gydol 2020, roedd 75 o gydweithwyr wedi cymryd rhan mewn secondiadau datblygu neu gyflenwi hefyd, a fu'n gyfle iddynt ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd. Yn ogystal, parhaom i annog cydweithwyr i rannu adborth gyda'i gilydd a chael trafodaethau agored gyda'u rheolwr er mwyn helpu eu datblygiad personol.

## Rhyddid i godi llais

Rydym wedi ymrwymo i annog diwylliant lle y mae pobl yn teimlo'n ddiogel i godi eu llais – y rhai sy'n gweithio i ni a'r rhai sy'n gweithio gyda ni. Er mis Mawrth 2019, mae Lindsey Mallors wedi cyflawni rôl ein Gwarcheidwad Rhyddid i Godi Llais, law yn llaw â 15 o Hyrwyddwyr Rhyddid i Godi Llais traws-sefydliadol. Ar y cyd, maent yn darparu llwybr a lle diogel i gydweithwyr fynegi pryderon.

Llwyddwyd i ddatrys ychydig dros 80% o'r pryderon a fynegwyd gyda thîm Rhyddid i Godi Llais yn ystod 2020. Ac mae gwaith wedi parhau yn ystod 2021 i ddatrys yr ychydig faterion sydd ar ôl i'w datrys. Mewn rhai achosion, arweiniodd y materion a godwyd at newidiadau ehangach a pharhaus o ran y ffordd yr ydym yn gweithio. Er enghraifft, gan fyfyrio am yr hyn a ddysgom yn ystod 2019, cynhaliom arolygon pwls ar gyfer cydweithwyr trwy gydol y flwyddyn er mwyn asesu morâl sefydliadol a chael gwybod am broblemau posibl yn gynnar.

Trwy gydol mis Hydref 2020, sef mis Codi Llais, gwnaethom ymdrech arbennig i godi ymwybyddiaeth o godi llais. Fel rhan o hyn, croesawom Dr Chris Turner, meddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth frys a sylfaenydd Civility Saves Lives, a ddaeth i siarad gyda ni am yr effeithiau y gall anghwrteisi ei gael mewn lleoliadau gofal iechyd.

## Y camau nesaf

Rydym yn ymboeni am ein cydweithwyr. Dyna pam y byddwch yn gweld ffocws cryf arnom yn eu cynorthwyo ac eu huwchsgilio, yn ogystal â chreu diwylliant gofalgar a chynhwysol yn *Ein strategaeth 2021–25*. Mae'r gwelliannau yr ydym yn parhau i'w gwneud yn ein rhoi ar y trywydd iawn i sicrhau safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl yn 2021.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) yn hanfodol er mwyn ein galluogi i fod yn rheolydd ac yn gyflogwr teg ac effeithiol.

Mae gwaith a gomisiynom dros y blynyddoedd diwethaf wedi ein tywys at ffrydiau gwaith newid. Er enghraifft:

- archwiliodd adroddiad *Teg Cyfeirio?* ffactorau er mwyn lleihau cynrychiolaeth anghyfrannol ym maes addasrwydd i wneud gwaith meddygol, gan wneud argymhellion
- amlygodd yr arolwg meddygon SAS ac LE a'r arolwg hyfforddiant cenedlaethol y gwahaniaethau rhwng profiadau a chyfleoedd meddygon o'r cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd
- yn ei hadroddiad *Sut y mae meddygon mewn rolau arwain uwch yn sefydlu ac yn cynnal diwylliant cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y claf,* soniodd Dr Suzanne Shale am bwysigrwydd enghreifftiau arwain cadarn wrth bennu diwylliannau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwael.

Yn ystod 2020, rydym wedi datblygu ymrwymiadau clir i gyflymu'r cynnydd a chyflawni canlyniadau ystyrlon ar gyfer y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu rhan, yn unol â'n strategaeth ED&I. Bydd ein gwaith gyda systemau gofal iechyd y DU wrth greu gweithleoedd cynhwysol, lle y mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a'u bod yn gallu manteisio ar gyfle cyfartal yn yr un modd, yn allweddol yn hyn o beth.

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chreu amgylcheddau mwy cynhwysol

Mae digwyddiadau 2020 ac effaith aruthrol y pandemig wedi ein hatgoffa o barhad anghydraddoldebau, mewn perthynas ag addysg, iechyd, oedran, anabledd, hil a nodweddion gwarchodedig eraill.

Fel rheolydd gweithwyr meddygol proffesiynol yn y DU, byddwn yn gwneud ein rhan wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, o fewn systemau gofal iechyd y DU ac yn ein gweithle ni.

Ym mis Mehefin 2020, ysgrifennodd Bonesig Clare Marx, Cadeirydd ein Cyngor, at y proffesiwn yn rhoi sylw i anghydraddoldebau gofal iechyd a hil a ffurfiau gwahaniaethu eraill, gan amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau newid cadarnhaol.

Ymhlith pethau eraill, ein blaenoriaeth ni yw rhoi sylw i ddau fater mesuradwy a gwaredu:

- gwahaniaethu, anfantais ac annhegwch mewn addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig
- cyfeiriadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol anghymesur gan gyflogwyr, mewn perthynas ag ethnigrwydd a phrif gymhwyster meddygol.

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cydnabod y bydd angen i ni hyrwyddo defnydd o'n dirnadaeth a'n data ymhlith cyfranogwyr allweddol yn y systemau iechyd.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn ein helpu i yrru'r newidiadau yr ydym yn dymuno eu gweld ar draws ein gweithgareddau cyflogaeth a'n gweithgareddau rheoliadol. Cyflawnir y rhain fel rhan o'n strategaeth newydd o 2021. Darllenwch fwy am y mesurau yr ydym yn eu gweithredu a sut y cânt eu rheoli ar ein gwefan.

## Ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith

Yn ystod 2020, parhaom i gydweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid allanol, gan ymateb mewn ffordd sensitif ac effeithiol i'r materion yr oeddent wedi'u codi gyda ni. Er enghraifft:

- gweithio gydag aelodau ein Fforwm Meddygon BME er mwyn darparu cymorth penodol i feddygon yr oeddent yn y DU ac na allent fynd oddi yno o ganlyniad i'r ffaith bod profion PLAB wedi'u canslo
- creu canolfan foesegol ar-lein benodedig sy'n cynnwys arweiniad am rai o'r materion a godwyd ynghylch cydraddoldeb
- cyfrannu at ddatblygiad Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu Meddygol 2020, menter bwysig a arweinir gan GIG Lloegr er mwyn mesur ac ysgogi tegwch ym maes meddygaeth
- cynorthwyo ymdrechion i hyrwyddo amrywiaeth ym maes dysgu ac addysgu meddygol, gan weithio gydag MSC ar arweiniad er mwyn helpu myfyrwyr i ddysgu sut i drin cleifion o wahanol gefndiroedd
- cyflwyno ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau ynghylch effeithiau'r pandemig ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'n camau gweithredu er mwyn cynorthwyo grwpiau amrywiol yn ystod y pandemig
- cyflwyno rhaglen e-ddysgu orfodol newydd ynghylch *Trin Pobl yn Deg,* a gynlluniwyd i helpu cydweithwyr i ddeall eu cyfrifoldebau a sut y dylent weithredu ac ymddwyn er mwyn sicrhau y caiff pawb eu trin mewn ffordd deg
- parhau i weithio gyda'n Fforwm Cynghori ED&I Strategol am arweiniad a chefnogaeth tuag at ein nodau strategol, yn enwedig ynghylch bwlio, aflonyddu ar a gwahaniaethu yn erbyn grwpiau amrywiol o feddygon
- cyflwyno mynegai Cynwysoldeb yn ein harolwg staff blynyddol, a gaiff ei fireinio gydag amser fel mesur gwaelodlin cynwysoldeb sefydliadol.

## Myfyrio am y ffordd y gallwn barhau i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Cynhaliodd yr archwilwyr allanol, Campbell Tickell, adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd cyffredinol ein harferion a'n protocolau ED&I yn ystod 2020. Roedd yr adolygiad yn ystyried ein rôl fel rheolydd, ein seilwaith, ein hatebolrwydd a'n perchnogaeth o ED&I, yn ogystal â'n cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth a safonau ar draws y DU.

Cadarnhaodd ein bod yn cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Roedd yn cydnabod yn arbennig yr ymdrech a'r ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud wrth ganolbwyntio ar welliannau dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwnaethpwyd sawl argymhelliad gan yr archwilwyr er mwyn cryfhau ein dull gweithredu mewn perthynas â llywodraethu a chydymffurfiaeth ein gwaith ED&I, y byddwn yn bwrw ymlaen gyda'r rhain yn 2021.

# Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

O fentrau unigol i weithgareddau a phenderfyniadau bob dydd, rydym yn ymdrechu i gyflawni ein gwaith mewn ffordd sy'n cynnig budd i gymdeithas gyfan a'r amgylchedd. Yn ystod 2020:

- gweithiom gyda'r Sefydliad Symudedd Cymdeithasol a Phartneriaeth Busnes Symudedd Cymdeithasol er mwyn creu cynllun prentisiaeth broffesiynol a chyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr
- datblygom System Rheoli Amgylcheddol er mwyn ein helpu i gyflymu ein harferion swyddfa gwyrdd ac i fod yn fwy cynaliadwy
- nodom fwy o ffyrdd y gallwn sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu caffael yn cael ei wneud mewn ffordd gyfrifol, gan gadw'r amgylchedd a chymdeithas mewn cof
- cynorthwyom gydweithwyr a fu'n ymwneud gyda chynllun Ymatebwyr Gwirfoddol GIG, yn ogystal â mentrau gwirfoddoli eraill
- cryfhaom ein perthynas gyda Busnes yn y Gymuned, cymundod o gannoedd o sefydliadau, y maent oll wedi ymrwymo i gyfrifoldebau cymdeithasol a moesegol
- ymunom â North West Leadership Board – mae Jane Durkin, Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, yn gweithio gydag aelodau bwrdd eraill i ddylanwadu ar drafodaeth leol a chamau er mwyn helpu cymunedau ar draws y rhanbarth.

Er mai newyddion mawr 2020 oedd y pandemig, ni allem golli golwg ar faterion pwysig eraill megis y newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae'r enghreifftiau a amlygir uchod yn rhan o gynllun gwaith ehangach, a ysgogir gan ein Gweithgor Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, sy'n parhau i nodi ble y gallwn wneud mwy.

> Y prif reswm y dewisais ddilyn prentisiaeth oedd oherwydd y cyfle i ddysgu a meithrin sgiliau newydd, a chael swydd go iawn a sicrhau cymhwyster ffurfiol ar yr un pryd. Ar ôl clywed am lefel y cymorth yr oedd CMC yn ei chynnig a'r cyfleoedd i gamu ymlaen yn fy ngyrfa, dewisais ymgeisio yma am fy mhrentisiaeth – a bûm yn llwyddiannus! Rydw i'n mwynhau cyfathrebu a meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r Swyddogion Ymchwilio eraill yn gyffredinol.
> - Ahmed Qasim

# Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli

## Y Cyngor a grwpiau llywodraethu eraill

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu. Ei rôl yw cynnig cyfeiriad strategol, sicrhau bod y swyddogion gweithredol yn atebol, a gwneud penderfyniadau polisi mawr ar lefel uchel. Mae'n cynnwys 12 aelod o bedair gwlad y DU, y mae chwech ohonynt yn aelodau meddygol a chwech ohonynt yn aelodau lleyg.

Rydym yn elusen gofrestredig ac mae aelodau ein Cyngor yn ymddiriedolwyr y sefydliad hefyd.

Fe'u penodir i gyd yn annibynnol gan y Cyfrin Gyngor, trwy gyfrwng proses sy'n dilyn canllawiau yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ynghylch gwneud penodiadau i gyrff rheoliadol gweithwyr proffesiynol gofal iechyd.

Yr ymddiriedolwyr rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 oedd:

- Mr Steven Burnett, FIA
- Arglwyddes Christine Eames, OBE LLB Mphil
- Athro Anthony Harnden MB ChB MSc FRCGP FRCPCH
- Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Hunt o Kings Heath PC OBE
- Athro Deirdre Kelly, CBE MD FRCP FRCPI FRCPCH DL
- Athro Paul Knight OBE, MBChB, FRCP (Caeredin, Glasgow, Llundain) FRCPI
- Bonesig Suzi Leather, DBE MBE MA BA BPhil CQSW LLD (Anrh) FRCOG (Anrh) FRSH (Anrh) DL
- Bonesig Clare Marx DBE DL FRCS
- Dr Raj Patel, (penodwyd 1 Chwefror 2020) MBE, MBChB FRCGP
- Bonesig Denise Platt, DBE BSc Econ
- Miss Amerdeep Somal LLB
- Miss Alison Wright (penodwyd 1 Chwefror 2020) MBChB FRCOG

Penodwyd Bonesig Clare Marx yn Gadeirydd newydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor ym mis Ionawr 2019. Roedd holl aelodau'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn adolygiadau arfarnu yn ystod 2020, a oedd yn cynnwys ystyried unrhyw anghenion dysgu a datblygu ac yn ailystyried gwrthdaro go iawn neu ymddangosiadol rhwng buddiannau er mwyn sicrhau bod modd rheoli unrhyw wrthdaro a nodir. Yn ystod 2020, cynhaliodd yr holl aelodau broses arfarnu 360 hefyd.

Gofynnir i aelodau'r Cyngor ddatgelu unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau hefyd. Cyhoeddir y gofrestr fuddiannau, sy'n cynnwys y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Cyngor, ar ein gwefan[15].

Fel elusen, rydym yn ystyried y saith egwyddor a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen (2020), a gallwn ddangos sut yr ydym yn defnyddio'r egwyddorion hyn er mwyn tywys ein gwaith ar sail 'defnyddio neu esbonio'.

Ceir dau eithriad i'r Cod, y byddwn yn eu hesbonio yn hytrach na'u gweithredu. Yn gyntaf, mae'n Cyngor a'n pwyllgorau yn gweithredu heb is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd a benodir yn ffurfiol. Fodd bynnag, gwneir darpariaethau yn y Llawlyfr Llywodraethu i gadeiryddion enwebu dirprwy i gynorthwyo yn ystod absenoldebau. Yn ail, gan bod ein proses benodi yn sefydledig ac yn drylwyr, ac yn cael ei goruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, ni farnir bod pwyllgor enwebiadau yn angenrheidiol.


Y Llawlyfr Llywodraethu yw dogfen lywodraethu y sefydliad. Fe'i adolygwyd yn gynnar yn 2019 er mwyn cynnwys y Cod Llywodraethu Elusen a chaiff mân ddiwygiadau eu gwneud yn barhaus ar ôl sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor, er enghraifft i aelodaeth pwyllgorau.

Mae gofyn i'r tîm llywodraethu corfforaethol gynorthwyo'r Cyngor i gynnal safonau uchel o ran gweithgarwch llywodraethu, ar sail 'defnyddio neu esbonio', yn unol â'r arfer da a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen. Mae'r tîm hwn hefyd yn darparu hyfforddiant a chyngor i'r sefydliad ynghylch materion llywodraethu. Mae pob pwyllgor yn atebol i'r Cyngor trwy gyfrwng adroddiad ffurfiol, ac mae'r Cyngor a phob pwyllgor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddatganiad o ddiben, a adolygir bob blwyddyn.

Mae'r diagram ar **y dudalen nesaf** yn dangos y gwahanol grwpiau llywodraethu sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y rhain i gyd, er mwyn ei helpu i oruchwylio ein gwaith ni mewn ffordd effeithiol. Disgrifir rolau a gweithgareddau'r grwpiau hyn ar y tudalennau sy'n dilyn.

Cynhelir busnes y Cyngor mewn ffordd agored a thryloyw, a chyhoeddir yr agenda a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod ar ein gwefan[16].

[15] Gweler www.gmc-uk.org/about/how-we-work/governance/council/council-member-register-of-interests.
[16] Gweler www.gmc-uk.org/about/how-we-work/governance/council.


Llywodraethu y Cyngor
Cyngor
Pwyllgor Risg ac Archwilio
Pwyllgor Tâl
Pwyllgor Buddsoddi
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Pensiwn
Pwyllgor MPTS
Grŵp Cyswllt CMC/MPTS
Llywodraethu gweithredol
Bwrdd Gweithredol
Cynlluniau gwaith cyfarwyddiaeth
Ymgysylltu ffurfiol
Fforymau cynghori
Yr Alban
Cymru
Gogledd Iwerddon
Addysg
Grwpiau cyswllt
Grwpiau gorchwyl a gorffen
Gwasanaethau Rhyngwladol CMC LTD
Bwrdd

## Pwyllgor Risg ac Archwilio

Cadeiriwyd y Pwyllgor Risg ac Archwilio gan Athro Deirdre Kelly yn ystod 2020. Ei aelodau cyfetholedig allanol oedd Elizabeth Butler a Kenneth Gill.

Mae'r Pwyllgor yn cyflawni rôl allweddol yn ein trefniadau llywodraethu, gan gynnig sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu a systemau rheoli risg
- darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2020 ac mae'n adrodd i'r Cyngor ddwy waith y flwyddyn. Gallwch gael gwybod mwy am rôl y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ei adroddiad o dudalen 73.

## Pwyllgor Tâl

Cadeiriwyd y Pwyllgor Tâl gan Denise Platt yn ystod 2020.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ynghylch tâl, amodau gwasanaeth a'r polisi treuliau ar gyfer aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd. Yn ogystal, mae'n pennu'r broses benodi ar gyfer y Prif Weithredwr a Chadeirydd MPTS, ynghyd â thâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr, cyfarwyddwyr, a Chadeirydd MPTS ac aelodau Pwyllgor MPTS.

Yn ogystal, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o asesu a mesur perfformiad, ac asesu gweithgarwch recriwtio a chynllunio ar gyfer olyniaeth, yn digwydd o fewn fframwaith priodol ar gyfer y rolau rheoli uwch o fewn ei gylch gwaith. Cyfarfu'r Pwyllgor ddwy waith yn 2020 ac mae'n adrodd i'r Cyngor bob blwyddyn.

## Pwyllgor Buddsoddi

Cadeiriwyd y Pwyllgor Buddsoddi gan Suzi Leather yn ystod 2020.

Ei aelodau cyfetholedig allanol yn ystod 2020 oedd Tim Scholefield, Keith MacKay a David Stewart.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am weithredu ac adolygu ein polisi buddsoddi, sicrhau bod y broses o reoli asedau yn cyd-fynd â'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, a monitro perfformiad.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio buddsoddiad CMC yng Ngwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI), gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Buddsoddi CMC, a chraffu cynllun busnes GMCSI, gan asesu lefelau posibl risg ac elw buddsoddiad.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2020 ac mae'n adrodd am berfformiad buddsoddi i'r Cyngor trwy gyfrwng cylchlythyrau yn dilyn cyfarfodydd, ac mae'n adrodd am berfformiad y portffolio i'r Cyngor bob blwyddyn.

## Gwasanaethau Rhyngwladol CMC

Ar 16 Rhagfyr 2016, cytunodd y Cyngor sefydlu Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI) fel is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr CMC. Prif amcan GMCSI yw cyflwyno ffrydiau refeniw newydd ac felly, lleihau ein dibyniaeth ar ffioedd meddygon.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn grym er mwyn sicrhau y caiff ein buddiannau eu diogelu ac y rheolir ein perthynas gyda GMCSI mewn ffordd effeithiol.

Er bod y Cyngor yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros GMCSI, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ystyried y risgiau i CMC gan weithrediad GMCSI, gan gynnal gweithgarwch mewnol cyson ac archwiliadau ar hap pan fo hynny'n briodol.

Cadeiriwyd Bwrdd GMCSI gan Andrew McCulloch yn ystod 2020. Roedd y Bwrdd yn cynnwys (yn ogystal â'r Cadeirydd) Paul Buckley, Steve Burnett (tan fis Mai), Paul Knight, Alison Wright a Paul Reynolds. Ymddeolodd Paul Buckley o'i swydd fel Cyfarwyddwr Rheoli ar 31 Rhagfyr 2020. Fe'i ddisodlwyd fel Cyfarwyddwr Rheoli gan Paul Reynolds, ac ymunodd Colin Melville â'r bwrdd.

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Pensiwn

Rheolir a gweinyddir cynllun pensiwn staff CMC â buddion wedi'u diffinio gan fwrdd o ymddiriedolwyr yn unol â rheolau a gweithred ymddiriedolaeth y cynllun. Mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau y cedwir asedau'r cynllun pensiwn ar wahân i asedau'r cyflogwr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am redeg y cynllun yn gywir, gan gynnwys casglu cyfraniadau, buddsoddi asedau a thalu ymrwymiadau budd pensiwn a wnaethpwyd gan y cyflogwr.

Cadeiriwyd y Bwrdd gan Jim McKillop yn ystod 2020. Mae Steven Burnett, Deirdre Kelly ac Amerdeep Somal (tan fis Hydref) yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan y cyflogwr. Mae

Danny Dubois, John Foley, Anthony Egerton a Finlay Scott yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan yr aelodau.

## Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) yn gyfrifol am oruchwylio'r broses ddyfarnu yn ystod gwrandawiadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol. Mae Bonesig Caroline

Swift, fel Cadeirydd, a Gavin Brown, fel Rheolwr Gweithredol, yn goruchwylio MPTS.

Mae Pwyllgor MPTS a'r Grŵp Cyswllt ar y cyd rhwng CMC ac MPTS yn rhan greiddiol o'n fframwaith llywodraethu.

Cadeirir Pwyllgor MPTS gan Fonesig Caroline Swift. Mae'r pwyllgor yn goruchwylio darpariaeth y gwasanaeth gwrandawiadau i feddygon, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan *Ddeddf Meddygol 1983*. Cadeirir Grŵp Cyswllt CMC/MPTS gan Gadeirydd y Cyngor. Mae'n goruchwylio'r berthynas waith rhwng MPTS a swyddogaethau CMC, y mae'n rhyngweithio gydag ef.

## Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw'r fforwm uwch ar gyfer gwneud penderfyniadau a goruchwylio a sefydlwyd er mwyn cynnig cyfeiriad strategol, gweithgarwch craffu ac adrodd i'r Cyngor gan dîm rheoli uwch CMC ynghylch materion arwyddocaol sy'n ymwneud â pholisi, strategaeth, cyllid, perfformiad, darpariaeth weithredol a rheoli adnoddau. Mae'n sicrhau bod CMC yn rheolydd ystwyth ac sy'n sicrhau perfformiad uchel, a'i fod yn deall ei gofrestreion, y systemau gofal iechyd y mae'n gweithredu ynddynt a safbwyntiau ei brif randdeiliaid.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis (ac eithrio mis Awst) ac mae'n adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr a hefyd, trwy gyfrwng adroddiad blynyddol ar wahân.

## Fforymau Cynghori y DU

Yn 2013, sefydlom fforymau cynghori yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r fforymau yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori mewn ffordd effeithiol gyda grwpiau diddordeb a bod ein polisïau yn addas i bob rhan o'r DU.

Mae'r aelodaeth wahoddedig yn amrywio o wlad i wlad, gan adlewyrchu ystod amrywiol y rhai y mae ganddynt ddiddordeb ac arbenigedd yn y meysydd yr ydym yn eu rheoleiddio yn y bedair cenedl.

Maent yn ychwanegol i'n trefniadau presennol er mwyn ymgysylltu, a bwriedir iddynt roi sylfaen strwythuredig i ni er mwyn i ni ymgysylltu am flaenoriaethau ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, a rhannu a thrafod unrhyw safbwyntiau ynghylch datblygu polisi yn gynnar. Maent yn adrodd am eu gwaith i'r Bwrdd Gweithredol ddwywaith y flwyddyn.

## Fforwm Cynghori Addysg

Cychwynnodd y Fforwm Cynghori Addysg newydd, sy'n disodli'r Bwrdd Cynghori Addysg a Hyfforddiant (ETAB) a'r Bwrdd Cynghori Asesu (AAB), ar ei

waith ym mis Chwefror 2019.  Mae'r fforwm yn ymgysylltu'n eang ac mewn ffordd effeithiol gyda'n grwpiau diddordeb allweddol ynghylch materion addysg, hyfforddiant ac asesu, gan sicrhau ein bod yn gallu datblygu a hyrwyddo dull gweithredu strategol at y gwaith hwn yn y ffordd orau ar draws holl wledydd y DU.  Cadeirir y Fforwm gan Athro Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau ac mae'r aelodaeth a wahoddwyd yn adlewyrchu amrediad amrywiol y rhai sydd â diddordeb ac arbenigedd ym maes addysg, hyfforddiant ac asesu meddygol ar draws y DU.  Adroddir am waith y Fforwm i'r Prif Weithredwr ac i'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr.

## Presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor, byrddau a phwyllgorau yn ystod 2020[17]

| Aelod ac ymddiriedolwr | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Mr Steven Burnett** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 4/4 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC | 4/5 |
| Fforymau Cynghori y DU – Cymru | 1/1 |
| GMCSI | 1/1 |
| **Arglwyddes Christine Eames** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |
| Pwyllgor Tâl 2/2 | |
| Fforymau Cynghori y DU – Gogledd Iwerddon | 1/1 |
| **Athro Anthony Harnden** | |
| Cyngor | 7/8 |
| Pwyllgor Tâl | 2/2 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 3/5 |
| **Arglwydd Philip Hunt** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 4/5 |

[17] Mae'n cynnwys saith cyfarfod o'r Cyngor ac un diwrnod cwrdd i ffwrdd strategol. Mae presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd fforwm yn wirfoddol ac yn dilyn gwahoddiad a wneir gan Gadeirydd y Cyngor.

| Aelod ac ymddiriedolwr | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Athro Deirdre Kelly** | |
| Cyngor | 7/8 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC | 4/5 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |
| **Athro Paul Knight** | |
| Cyngor | 7/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 5/5 |
| Fforymau Cynghori y DU – Yr Alban | 1/1 |
| GMCSI | 4/4 |
| **Bonesig Suzi Leather** | |
| Cyngor | 7/8 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 5/5 |
| **Bonesig Clare Marx**[18] | |
| Cyngor | 8/8 |
| Grŵp Cyswllt CMC/MPTS | 2/2 |
| Fforymau Cynghori y DU – Yr Alban | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Gogledd Iwerddon | 1/1 |
| Fforymau Cynghori y DU – Cymru | 1/1 |
| **Dr Raj Patel** | |
| Cyngor | 7/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 3/4 |

[18] Fel aelod yn rhinwedd ei swydd o'r is-bwyllgorau, bob blwyddyn, bydd Bonesig Clare Marx yn mynychu un o gyfarfodydd pob is-bwyllgor.

| Aelod ac ymddiriedolwr | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| **Bonesig Denise Platt** | |
| Cyngor | 8/8 |
| Pwyllgor Buddsoddi | 4/5 |
| Pwyllgor Tâl | 2/2 |
| **Miss Amerdeep Somal** | |
| Cyngor | 5/8 |
| Pwyllgor Risg ac Archwilio | 2/4 |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC | 2/4 |
| **Miss Alison Wright** | |
| Cyngor | 8/8 |
| GMCSI | 1/3 |

## Aelodau cyfetholedig allanol

Mae aelodau cyfetholedig allanol yn eistedd ar y Pwyllgor Buddsoddi ac ar y Pwyllgor Risg ac Archwilio[19].

| | |
|---|---|
| *Pwyllgor Buddsoddi* | |
| Mr Keith MacKay | 5/5 |
| Mr Tim Scholefield | 5/5 |
| Mr David Stewart | 4/5 |
| *Pwyllgor Risg ac Archwilio* | |
| Ms Elizabeth Butler | 5/5 |
| Mr Kenneth Gill | 5/5 |
| *GMCSI* | |
| Dr Andrew McCulloch | 4/4 |

19 Mae'r data ynghylch presenoldeb yn adlewyrchu cyfanswm y cyfarfodydd lle'r oedd modd bod yn bresennol ynddynt.

## Rheolwyr

Ar ddechrau 2020, roedd ein staff dan reolaeth y Prif Weithredwr, Charlie Massey.  Caiff ei gynorthwyo gan dîm o gyfarwyddwyr, yr oedd aelodau'r tîm hwn fel a ganlyn ar 31 Rhagfyr 2020:

- Mr Paul Buckley, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi
- Ms Una Lane, Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu
- Athro Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau
- Mr Anthony Omo, Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol
- Mr Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol
- Mr Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau.

Ymddeolodd Mr Paul Buckley ar 31 Rhagfyr 2020.  Ymunodd Mr Shaun Gallagher â'r sefydliad ar 1 Rhagfyr 2020 er mwyn llenwi'r swydd wag.

## Personél rheoli allweddol – polisi tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am bennu tâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr, Cadeirydd MPTS a'r cyfarwyddwyr.  Mae'r Pwyllgor yn pennu pob agwedd ar gyflogau neu honoraria, darpariaeth unrhyw fuddion eraill, ynghyd ag unrhyw amodau cytundebol neu drefniadau eraill ar gyfer y grŵp hwn o staff.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylem ddarparu tâl a gwobrwyon a fydd yn denu ac yn cadw'r staff o ansawdd uchel sy'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cylch gwaith statudol a'n hamcanion strategol.

Wrth bennu'r tâl sylfaenol ar gyfer swyddi unigol, bydd y Pwyllgor yn cael cyngor allanol am rolau o fewn ei gylch gwaith, gan sicrhau bod cyflogau'n cyd-fynd â chyfradd y farchnad sy'n briodol, yn unol ag ystyriaethau ynghylch adnoddau.

Ystyrir dyfarniad cyflog cyfunedig wrth gyfeirio at lefel berfformio y sefydliad, goblygiadau ariannol unrhyw ddyfarniad, y dyfarniad a gytunwyd ar gyfer cyflogeion eraill CMC a thueddiadau ehangach yn y farchnad.  Ystyrir elfen anghyfunol amrywiol flynyddol, gan adlewyrchu perfformiad personol, gyda'r un ystyriaethau a weithredir ar gyfer unrhyw ddyfarniad cyfunedig.  Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn bob blwyddyn.

Fel arfer, bydd staff yng nghylch gwaith y Pwyllgor Tâl yn gymwys i gael y pecyn buddion sydd ar gael i holl gyflogeion CMC yn unol â'r un amodau. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r gallu i dynnu yn ôl, addasu neu newid unrhyw fuddion i staff yn ei gylch gwaith, yn unol ag unrhyw ofynion ymgynghori a chytundebol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw fuddion ychwanegol mewn nwyddau (megis taliadau adleoli) fesul achos.

Caiff staff allanol newydd a benodir o fewn cylch gwaith y Pwyllgor eu cofrestru yn ein cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, yn awtomatig. Pan fydd gan gyflogeion drefniadau pensiwn cytunedig sy'n bodoli eisoes, megis aelodaeth o'n cynllun â buddion wedi'u diffinio, byddant yn cadw hwn yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, yn unol ag unrhyw newidiadau i'r rheolau y bydd ymddiriedolwyr a'r cyflogwr yn cytuno arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod goblygiadau'r polisi tâl a phenderfyniadau cysylltiedig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried mewn ffordd briodol. Yn benodol:

- cefnogir unrhyw wahanrediadau cyflog gan werthusiad swydd ffurfiol neu gyngor annibynnol o'r farchnad allanol
- cefnogir unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl amrywiol gan asesiad gwrthrychol o berfformiad
- ni fydd unrhyw addasiad neu newidiadau i drefniadau tâl yn gwahaniaethu mewn ffordd anghyfreithlon
- cefnogir penderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag amodau gwasanaeth gan gyngor priodol ynghylch unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

# Adolygiad ariannol 2020

Paratowyd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 yn unol â'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102).*

## Cyfanswm ein hincwm a'n gwariant yn 2020

Cafodd pandemig y coronafeirws (COVID-19) effaith sylweddol ar ein gweithgareddau trwy gydol 2020, ond roeddem wedi parhau i ddarparu nifer o'n gwasanaethau craidd er mwyn cynorthwyo meddygon a chleifion.

Yn 2020, sicrhaom incwm anghyfyngedig o £108.3 miliwn, a oedd £1.7 miliwn yn is na'r swm a sicrhawyd yn 2019. Roedd hyn o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, a arweiniodd at gau ein Canolfan Asesu Clinigol dros dro, a'i hailagor yn dilyn hyn gyda llai o gapasiti er mwyn caniatáu i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu gweithredu. Roedd hyn wedi lleihau ein hincwm gan ffioedd profion PLAB, gan gael effaith ddilynol ar yr incwm gan gofrestriadau newydd.

Yn ogystal, darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) £1.6 miliwn yn 2020 er mwyn dechrau ar y gwaith gweithredol o ddwyn cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia dan drefniadau rheoleiddio y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae natur y cyllid gan DHSC yn gyfyngedig, felly fe'i ddangosir ar wahân yn y cyfrifon. Gwariwyd yr arian yn llawn yn ystod 2020.

Yn ogystal, llwyddom i sicrhau £2.5 miliwn o elw ar ein buddsoddiadau yn ystod 2020. Roedd hwn yn is na'r swm yn 2019, ac roedd hyn yn rhannol oherwydd effaith y pandemig ar farchnadoedd ariannol ac yn rhannol oherwydd perfformiad buddsoddi arbennig o gryf yn ystod 2019.

Cyfanswm ein gwariant gweithredol yn ystod 2020 oedd £109.6 miliwn, a oedd yn ostyngiad o £4.8 miliwn o'i gymharu gyda'r sefyllfa yn 2019. Er gwaethaf effaith y pandemig, roedd ein canolfan gyswllt wedi aros ar agor trwy gydol 2020 ac roeddem wedi parhau i brosesu ceisiadau am gofrestriadau a chynnal cyrsiau ar-lein i feddygon yr oedd gweithio yn y DU yn brofiad newydd iddynt. Yn ogystal, gwnaethom newidiadau i'n gweithgareddau rheoliadol fel y gallai meddygon dreulio mwy o amser ar ofal clinigol, megis gohirio dyddiadau ailddilysu a'n harolwg hyfforddiant cenedlaethol. Fodd bynnag, gohiriwyd tribiwnlysoedd dros dro, yna fe'u hailgychwynnwyd gyda llai o gapasiti o ganlyniad i ofynion cadw pellter cymdeithasol, a leihaodd ein costau yn ystod 2020. Roedd costau rhedeg PLAB yn is hefyd, a gwelwyd gostyngiadau mewn costau swyddfa, teithio, a digwyddiadau.

Mae ein cyfrifon 2020 yn cynnwys darpariaeth o £3.7 miliwn hefyd, er mwyn talu'r costau posibl a fydd yn deillio o hawliadau cyfreithiol.

Pennom darged effeithlonrwydd i sicrhau arbedion o £2.0 miliwn (2% o gyllidebau cyfarwyddiaethau), ac roeddem yn teimlo bod hwn yn darged realistig na fyddai'n effeithio ar safonau ansawdd. Cyfyngwyd ar ein gallu i sicrhau arbedion wrth i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddelio gydag effaith y pandemig, ond llwyddom i arbed £1.5 miliwn ar ffurf costau trwy ad-drefnu ein gofynion llety a gohirio'r broses o recriwtio pobl i swyddi

gwag.

Ni fu gan yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd gofyn eu datgelu dan A162A Deddf Elusennau 2011.

## Polisi cronfeydd wrth gefn a busnes gweithredol

Adolygir lefel ein cronfeydd wrth gefn a'n polisi cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, a rhoddir sylw i unrhyw oblygiadau ariannol fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Mae cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd, cronfeydd wrth gefn a gefnogir gan asedau sefydlog a chronfeydd wrth gefn pensiwn.

Rydym yn dal cronfeydd wrth gefn rhydd:

- i ddarparu cyfalaf gweithio er mwyn cynnal ein gweithgarwch arferol o ddydd i ddydd
- i ddarparu cronfeydd i ddelio ag unrhyw risgiau a fydd yn codi
- i ddarparu cronfeydd i ymateb i fentrau, cyfleoedd a sialensiau newydd sy'n codi
- i ariannu'r cyfnod cyn y teimlir effaith lawn unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd.

Cynrychiolir cyfran sylweddol o gyfanswm ein cronfeydd wrth gefn gan asedau sefydlog, nad oes modd eu trosi'n arian ar fyr rybudd yn hawdd, heb i hynny gael effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni ein nodau elusennol a'n rhwymedigaethau statudol. Felly, diystyrir gwerth asedau sefydlog at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn.

Diystyrir gwerth y cronfeydd pensiwn wrth gefn hefyd at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn. Caewyd y cynllun â buddion wedi'u diffinio i groniadau yn y dyfodol yn 2018, a gellir rheoli unrhyw ddiffyg neu warged yn y cynllun dros y tymor canolig, felly nid yw'n cael unrhyw effaith ar y cronfeydd wrth gefn rhydd yn y tymor byr.

Ni cheir fformwla safonol y gellir ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo lefel ddelfrydol y cronfeydd wrth gefn rhydd. Rydym yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gan bennu ystod a dargedir ar sail ein gofynion llif arian ac asesiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Ein nod yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd ar lefel nad yw'n ormodol, ond nad yw'n peryglu ein solfedd.

Ar sail ein dadansoddiad o lif arian a'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd o tua £25 miliwn i £45 miliwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn anochel y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu amrywiadau yn lefelau go iawn yr incwm a'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb. Ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd go iawn yn unol â'r lefel a dargedwyd dros y tymor canolig. Os bydd ein cronfeydd wrth gefn go iawn yn amrywio'n sylweddol o'r ystod darged a nodir yn y polisi cronfeydd wrth gefn, byddwn yn rhoi sylw i'r amrywiad fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb, er mwyn sicrhau bod y cronfeydd go iawn yn

dychwelyd i lefel foddhaol o fewn cyfnod rhesymol.

Cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2020 oedd £64.6 miliwn, a oedd yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd o £42.7 miliwn, ac £17.9 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a gynrychiolwyd gan asedau sefydlog, a chronfa wrth gefn pensiwn o £4.0 miliwn.

Roedd lledaeniad y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith arwyddocaol ar ein gweithgareddau trwy gydol 2020, ac yn gyffredinol, roedd ein costau net yn is na'r hyn a gynlluniwyd. Er bod y pandemig yn parhau i gyfyngu ar ein gweithgareddau yn gynnar yn ystod 2021, rydym yn bwriadu y bydd ein gwariant yn uwch nag ein hincwm yn 2021, wrth i ni weithredu cynlluniau adfer er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau gweithredol yn rhedeg yn ôl eu capasiti llawn unwaith eto. Amcangyfrifwn y bydd ein cronfeydd wrth gefn rhydd yn lleihau i tua £41.4 miliwn ar ddiwedd 2021, sy'n cyd-fynd â'n polisi cronfeydd wrth gefn. Byddwn yn adolygu ein polisi cronfeydd wrth gefn yn nes ymlaen yn 2021, cyn gosod cyllideb 2022.
Daw mwyafrif ein hincwm o'r ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg gofrestru gyda ni er mwyn gwneud gwaith meddygol yn y DU, felly mae'n hincwm yn gymharol sicr. Er gwaethaf effaith y pandemig, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod o'r farn bod CMC yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld, felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Nid oes unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar ein sefydlogrwydd ariannol hyd y gellir rhagweld.

## Polisi buddsoddi

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ac adolygu'r polisi buddsoddi cyffredinol, yr amcanion, y parodrwydd i dderbyn risg a'r elw a dargedir. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, monitro perfformiad a gweithgarwch adrodd i'r Cyngor, i'r Is-bwyllgor Buddsoddi.

Mae'n polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori:

- y rhai hynny sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd
- y rhai y byddwn yn eu buddsoddi dan reolaeth efallai
- y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu efallai ac
- unrhyw falans ariannol sy'n weddill.

Rydym yn dal isafswm o £15 miliwn fel cyfalaf gweithio, at ddibenion llif arian arferol. Caiff hwn ei ddal mewn cyfrifon banc mynediad syth ac mae'n cynnig digon o hyblygrwydd er mwyn gallu osgoi benthyca dros dro a/neu'r angen i fanteisio ar fuddsoddiadau er mwyn delio ag amrywiadau tymor byr mewn incwm a gwariant gweithredol.

Yn wreiddiol, buddsoddom £50 miliwn dan reolaeth ym mis Mehefin 2019. Y gyfradd elw a dargedwyd ar gronfeydd a fuddsoddwyd dan reolaeth yw chwyddiant (CPI) a 2% dros gyfnod treigl pum mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymagwedd ofalus tuag at risg. Rydym yn dymuno diogelu rhag

chwyddiant; sicrhau incwm cymedrol; ac amrywio ein cronfeydd er mwyn lleihau'r risg o golli cyfalaf a/neu refeniw.

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu buddsoddi moesegol cynhwysfawr tuag at fuddsoddiadau. Credwn y byddai buddsoddi mewn cwmnïau neu sectorau penodol yn gwrthdaro â'n nodau elusennol yn ein barn ni, neu y gallent beri niwed i'n henw da. Nid ydym yn dymuno elwa'n uniongyrchol gan neu ddarparu cyfalaf ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cyd-fynd â'n nodau elusennol, felly rydym yn gwahardd yn benodol buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n sicrhau dros 10% o'u refeniw gan: tybaco, alcohol, gamblo, pornograffi, benthyca ar gyfradd llog uchel, arfau rhyfel a ffrwydron tir, a chloddio am lo thermol neu dywodydd olew. Nid ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n destun ymchwiliadau neu y'u canfuwyd yn euog o efadu trethi neu wyngalchu arian dros y dair blynedd ddiwethaf.

Efallai y byddwn yn buddsoddi mewn cwmnïau y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â'n nodau elusennol neu y mae'n eu cefnogi. Disgwyliwn i gwmnïau y byddwn yn buddsoddi ynddynt ddangos arferion cyflogaeth a llywodraethu corfforaethol cyfrifol, gan fod yn gydwybodol mewn perthynas â materion amgylcheddol a chymdeithasol, a chan ddelio â chwsmeriaid a'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt mewn ffordd deg. Yn ogystal, efallai y byddwn yn defnyddio ein sefyllfa fel buddsoddwr er mwyn dylanwadu ar ac ymgysylltu ag ymddygiad corfforaethol y cwmnïau hynny yr ydym yn buddsoddi ynddynt mewn ffordd weithredol.

Dim ond trwy reolwyr cronfa sy'n dangos y cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) cryfaf y byddwn yn buddsoddi. Wrth benodi rheolwyr cronfa, byddwn yn ystyried sut y maent yn cynnwys asesiad o berfformiad cwmnïau ynghylch materion ESG yn eu proses er mwyn dethol stoc.

Ar ddiwedd 2020, barnwyd bod ein cronfeydd dan reolaeth yn werth £57 miliwn o'i gymharu â £54.8 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn. Llwyddom i sicrhau elw o 4.55% yn 2020 o'i gymharu â tharged o 2.65%.

Buddsoddom £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yng Ngwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig, is-gwmni masnachol CMC, ar ddiwedd 2016. Barnwyd bod ein buddsoddiad ar ddiwedd 2020 yn werth £0.2 miliwn.

Caiff unrhyw arian parod dros ben na chaiff ei ddal fel cyfalaf gweithio neu ei fuddsoddi, ei ddal mewn cyfrifon cadw tymor canolig a/neu gyfrifon sy'n cynnig llog. Sicrhaom llog o £0.2 miliwn ar ein balansau ariannol, sy'n cyfateb â chyfradd elw flynyddol gyfartalog o 0.47%. Dangosir arian parod sy'n cael ei ddal fel cyfalaf gweithio, ynghyd ag unrhyw arian parod dros ben, yn ein mantolen o fewn asedau cyfredol.

## Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig

Corfforwyd yr is-gwmni masnachol fel cwmni preifat cyfyngedig gan gyfranddaliadau ar 16 Rhagfyr 2016. Mae'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr CMC ac mae'n darparu gwasanaethau masnachol, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddi ac achredu. Un o'i brif amcanion yw cyflwyno ffrydiau refeniw newydd ac felly, lleihau dibyniaeth CMC ar adnoddau ariannol craidd. Bydd yn gwneud hyn trwy roi ei elw yn ôl i CMC at ddibenion cyflawni nodau elusennol CMC.

Buddsoddodd CMC £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yn GMCSI. Yn ystod ei flynyddoedd cynnar, roedd GMCSI wedi gwneud colledion net, ond

mae wedi gallu sicrhau elw cymharol fach dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2020, roedd GMCSI wedi sicrhau elw net o £13,614 ac ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ganddo asedau net o £237,854, felly ni ddychwelwyd unrhyw elw i CMC ar ffurf rhodd cymorth. Rhagamcanir y bydd GMCSI yn sicrhau elw pellach dros y tymor canolig.

Mae'r cyfrifon a gyflwynir yma yn gyfrifon grŵp cyfunol sy'n cynnwys ein his-gwmni masnachol, GMCSI. Mae'r datganiad materion ariannol yn dangos sefyllfa gyfunol CMC a GMCSI. Mae'r fantolen yn dangos colofnau ar wahân sy'n nodi sefyllfa'r grŵp (CMC a GMCSI gyda'i gilydd) a sefyllfa'r elusen rhiant (CMC). Paratowyd cyfrifon cwmni ar wahân ar gyfer GMCSI.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig). Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'r grŵp a'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu mewn ffordd gyson
- arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw achosion o wyro o bwys yn cael eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn esbonio trafodion yr elusen ac sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â *Deddf Elusennau 2011*, *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*, *Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005*, *Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006* (fel y'u diwygiwyd), Cyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd dan *Ddeddf Meddygol 1983* a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp ac felly, cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

## Trafodion partïon cysylltiedig

Rhaid i bob ymddiriedolwr ac uwch reolwr ddatgelu manylion unrhyw sefydliadau y maen nhw (ac aelodau teuluol agos a phartneriaid busnes) yn cyflawni rôl o awdurdod ynddynt neu y mae ganddynt fudd perthnasol arall ynddynt, ac y gallai eu busnes arwain at sefyllfa lle y byddent yn cael cyswllt ariannol â CMC. Rhaid datgelu manylion unrhyw drafodion go iawn rhwng CMC a phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn hefyd. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi cofrestr buddiannau ar ein gwefan.

Yn ystod 2020, gwnaethpwyd yr holl ddatgeliadau ac nid oedd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder.

# Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio 2020

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cyflawni rôl allweddol yn ein strwythur llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn cynnig sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg
- darpariaeth y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Yn ogystal, mae'n monitro ein polisïau gwrth-dwyll ac unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac mae'n adolygu'r trefniadau er mwyn mynegi pryderon.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i gyngor a'i benderfyniadau ar ganllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a phan fo hynny'n briodol, ar gyngor allanol annibynnol.

Ar ddechrau 2020, roedd saith aelod ar y Pwyllgor – pump o aelodau'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig. Croesawodd y Pwyllgor aelod Cyngor newydd ym mis Chwefror a phenderfynodd aelod Cyngor arall ymddiswyddo ym mis Mai. Mae aelodau cyfetholedig, neu annibynnol, yn datblygu gwaith y Pwyllgor trwy ddwyn sgiliau a phrofiad ychwanegol gwerthfawr i'r gwaith craffu a herio annibynnol ynghylch cyllid, risg a llywodraethu. Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cymryd rhan mewn proses arfarnu flynyddol.

Yn 2020, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith a chyflwynodd ddau adroddiad ffurfiol am ei waith a'i ganfyddiadau i'r Cyngor. Yn ogystal, cafodd aelodau'r Pwyllgor y cyfle i ddysgu mwy am feysydd penodol o'r busnes a'u risgiau, a'u craffu, yn ystod tair sesiwn seminar.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i raglen waith flynyddol ar risg ac mae ein Cofrestr Risg a Chyfleoedd Corfforaethol yn adlewyrchu'r prif risgiau strategol yr ydym yn eu rheoli. Mae gweithgarwch goruchwylio a chraffu y Pwyllgor yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod cyfleoedd yn cael eu hymestyn trwy gyfrwng systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg effeithiol.

## Gweithgareddau allweddol yn ystod 2020

Bu 2020 yn flwyddyn anarferol a gwelwyd y risgiau yr oeddem yn eu hwynebu yn newid gyda dyfodiad y pandemig. Ym mis Mawrth, penderfynodd y Pwyllgor oedi ei raglen archwilio mewnol a gynlluniwyd. Roedd yn teimlo bod modd iddo wneud hyn o ystyried y sicrwydd a oedd ganddo o flynyddoedd blaenorol ynghylch nerth y systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol, yn ogystal â'r trefniadau rheoli risg yr oeddent wedi cael eu hymwreiddio.

Ailbennwyd ffocws y rhaglen archwilio mewnol a oedd yn weddill, ar gyfres o adolygiadau dysgu, gan ddarparu gwaith craffu, cymorth a sicrwydd

ynghylch yr addasiadau a wnaethom i'n gweithrediadau a'n ffyrdd o weithio. Yn ogystal, bu'n monitro ac yn ystyried risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg yn yr amgylchedd allanol.

Yn ystod pob un o'i gyfarfodydd, roedd y Pwyllgor wedi:

- trafod ystod eang o risgiau strategol er mwyn cynnig cefndir pwysig i'w ddealltwriaeth o'r sialensiau a'r cyfleoedd yr oedd CMC yn eu hwynebu o'r pandemig
- ystyried y sicrwydd a oedd ganddo o ran y ffordd yr oedd y sefydliad yn ymateb i fygythiadau a chyfleoedd a oedd yn dod i'r amlwg
- herio'r gofrestr cyfleoedd corfforaethol a risg
- parhau i roi cymorth parhaus ar gyfer aeddfedrwydd risg yn unol ag egwyddorion rheoli risg mewn ffordd effeithiol, a nodir yn y safon canllawiau rhyngwladol (ISO 31000:2009)
- craffu canfyddiadau archwilio a'r adolygiad dysgu er mwyn teimlo'n fodlon bod y camau yr oeddent yn cael eu cymryd yn briodol
- monitro gweithrediad argymhellion a wnaethpwyd mewn adroddiadau archwilio blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn ffordd effeithiol gan reolwyr uwch
- adolygu unrhyw ganfyddiadau a gwersi a ddysgwyd o waith a gynhaliwyd mewn perthynas â digwyddiadau niweidiol arwyddocaol.

Roedd gweithgareddau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- cymeradwyo llythyr ymgysylltu yr archwiliad allanol a chraffu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019, gan gynnwys canlyniad gwaith yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol – o ystyried goblygiadau economaidd y pandemig, roedd hwn yn cynnwys ffocws ar y cwestiwn ynghylch a fyddai modd cynnig sicrwydd y gallai CMC barhau ei weithgareddau ar ôl 2020
- adolygu adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- comisiynu prawf annibynnol o drefniadau rheoli diogelwch seiber CMC
- adolygu pryderon a fynegwyd i'r Gwarcheidwad Rhyddid i Godi Llais yn Adroddiad Blynyddol 2019 yr olaf
- cynnal seminar er mwyn deall darlun holistig o drefniadau sicrwydd a rheoli ansawdd lleol, canolog ac annibynnol, er mwyn cyfrannu at ei benderfyniad ynghylch ffocws yr archwiliad mewnol ar gyfer 2021.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor yn comisiynu adolygiad annibynnol hefyd o drefniadau CMC er mwyn cydymffurfio gyda BS 10008 – y Fanyleb Derbynioldeb cyfreithiol a phwysau tystiolaethol gwybodaeth electronig (ESI), y daeth CMC yn hollol achrededig iddo yn 2016. Roedd yr adolygwr allanol yn canmol ein gwaith, gan ddod i'r casgliad bod y system rheoli gwybodaeth o fewn CMC yn effeithiol wrth sicrhau natur ddibynadwy

gwybodaeth electronig.  Roedd ymateb y sefydliad i'r pandemig a'i allu i gynnal safonau yn ystod cyfnod heriol wedi gwneud argraff dda arnynt hefyd.

## Rheoli risg

Er mwyn sicrhau mwy o ddylanwad y tu hwnt i gylch gwaith uniongyrchol meddygon, rhaid i ni weithio gydag eraill hefyd fel ein bod yn cael cymaint o effaith ag y bo modd ac yn rheoli risgiau a'u goblygiadau ar eraill mewn ffordd sensitif.

Yn ystod 2020, parhaom i fanteisio ar gyfleoedd i gyfrannu i'r ddadl allanol ynghylch cynorthwyo ymateb Llywodraeth y DU i'r pandemig a gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo amgylcheddau gweithio diogel ar gyfer yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys meddygon.

Mae meddwl am risg yn rhan annatod o'n trafodaethau a'n gweithrediadau ar bob lefel yn y busnes hefyd.  Mae gennym set aeddfed o drefniadau rheoli risg sydd wedi'u hymwreiddio yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd ac rydym yn defnyddio cofrestrau risg fel offeryn er mwyn nodi, cyfleu, monitro a rheoli risgiau gweithredol a risgiau prosiect.  Yn ogystal, mae gennym drefniadau llywodraethu cadarn gyda risgiau a chyfleoedd yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Gweithredol am weithredu yn ôl yr angen.

Cyhoeddir ein cofrestr risg a chyfleoedd gorfforaethol ar ein gwefan yn rheolaidd, trwy gyfrwng adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cyngor.

## Rheoli risgiau yn ystod 2020

Er bod ymateb i'r pandemig wedi creu rhai sialensiau arwyddocaol, roedd wedi cynnig cyfleoedd hefyd i adolygu'r ffordd yr ydym yn rheoli ein gweithrediadau a'n ffyrdd o weithio, fel rheolydd ac fel cyflogwr.

Ein blaenoriaeth bennaf trwy gydol 2020 fu diogelu cleifion, cynorthwyo'r gweithlu meddygol a hyrwyddo iechyd a lles ein cydweithwyr.  Am ragor o wybodaeth am y mentrau a fu'n gysylltiedig â hyn, gweler o dudalen 20 ymlaen.

## Rheoli risgiau a chyfleoedd nad oeddent yn ymwneud â'r pandemig

Law yn llaw â'n gwaith wrth ymateb i'r dasg o reoli'r pandemig, roeddem wedi parhau i fwrw ymlaen gyda blaenoriaethau eraill, gan gynnwys:

- bwrw ymlaen gyda gwaith ar ein rhaglen *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau* fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn rheolydd rhagweithiol (gweler tudalen 31)
- rheoli paratoadau ar gyfer effaith Brexit (gweler tudalen 44)
- paratoi ar gyfer cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (gweler tudalen 26)
- ymateb i amrediad o ymchwiliadau cyhoeddus pwysig, megis yr Ymchwiliad Niwroleg Annibynnol yng Ngogledd Iwerddon, ymchwiliad Amwythig a Telford ynghylch gofal mamolaeth a'r Ymchwiliad i farwolaeth Elizabeth Dixon.

Yn ystod 2020, cynhaliom adolygiad mewnol o achos Teodora Crisovan hefyd. Mae Crisovan yn ddinesydd o Romania a oedd wedi defnyddio dogfennaeth ffug er mwyn sicrhau cofrestriad a thrwydded i wneud gwaith meddygol yn y DU. Tynnwyd ein sylw ati mewn galwad ffôn a wnaethpwyd i'n llinell gymorth, a oedd yn mynegi pryderon ynghylch a oedd hi'n feddyg cymwys. Ymatebom yn brydlon, gan ddiogelu diogelwch cleifion trwy gyfrwng gorchymyn interim, gan hysbysu'r Heddlu o weithredu troseddol, ac yn fuan wedi hynny, tynnu ei henw oddi ar y gofrestr ymarferwyr meddygol cofrestredig.

Roedd Crisovan wedi cofrestru dan ddarpariaeth yn *Neddf Meddygol 1983* sy'n cynnwys cofrestru gwladolion o un o blith 29 gwlad yn AEE. Rydym wedi mynegi ein pryderon am risgiau sylweddol y llwybr cofrestru hwn ers tro, gan bod y ddarpariaeth yn caniatáu i wladolion AEE sy'n meddu ar gymwysterau meddygol cydnabyddedig gael yr hawl i sicrhau cofrestriad CMC yn awtomatig.

Er 1 Ionawr 2021, nid yw deddfwriaeth AEE yn atal CMC rhag cynnal archwiliadau dilysu ffynhonnell sylfaenol ar gymwysterau meddygol a ddyfarnir i wladolion AEE mwyach. Bellach, rhaid i bob ymgeisydd AEE fodloni'r un gofyniad ag y mae'n rhaid i raddedigion meddygol rhyngwladol ei fodloni, gan sicrhau bod eu cymwysterau meddygol yn cael eu cadarnhau mewn ffordd annibynnol cyn iddynt wneud cais am gofrestriad. Yn ogystal, gallwn fynnu bod meddygon AEE yn darparu tystiolaeth o'u sgiliau Saesneg ymlaen llaw, cyn iddynt wneud cais am gofrestriad.

Roedd ein hadolygiad mewnol o'r achos wedi cynnig cyfleoedd pellach i nodi meysydd o fewn ein gweithdrefnau y byddai modd eu cryfhau ymhellach y tu hwnt i'r newidiadau a ddaeth yn sgil gadael UE.

- Byddwn yn darparu hyfforddiant diweddaru ymwybyddiaeth o dwyll yn fwy rheolaidd o hyn ymlaen, er mwyn helpu cydweithwyr i fod yn ymwybodol o'r technegau cymhleth a soffistigedig diweddaraf a ddefnyddir.
- Rydym yn cynnal archwiliadau wrth eu ffynhonnell o gymwysterau meddygol sampl ar hap o feddygon y rhoddwyd cofrestriad iddynt heb archwiliad o'u manylion adnabod. Ar ôl i ni gwblhau'r archwiliadau ar y sampl hwn, a dadansoddi'r canlyniadau, caiff penderfyniad ei wneud ar sail y risg, ynghylch a ddylem symud ymlaen i archwilio sampl pellach.

## Y tu hwnt i 2020

Mae'n ymddangos y bydd y tirlun allanol yn parhau i fod yn gythryblus am gryn amser eto. Mae'r ansicrwydd parhaus yn creu amgylchedd dynamig sy'n cynnwys sialensiau arwyddocaol a chyfleoedd cyfoethog. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddom ein Strategaeth gorfforaethol 2021–2025 uchelgeisiol newydd, ac mae'r pandemig yn gefndir er mwyn i ni fwrw ymlaen gyda'n hagenda yn 2021 a thu hwnt. Bydd rheoli risg cyfleoedd a bygythiadau mewn ffordd weithredol yn  allweddol er mwyn ein cynorthwyo i sicrhau cynnydd parhaus.

## Cyfleoedd allweddol

Yn allanol, mae gennym y cyfle i:

- barhau i weithio ar agenda diwygio deddfwriaethol sy'n ein trawsnewid ni (a rheolyddion eraill) i fod yn rheolydd blaengar, modern a hyblyg
- sicrhau mwy o gyflymder trwy ein gweithgarwch cydweithio a'n dylanwad gyda phartneriaid allweddol er mwyn creu amgylcheddau gwaith cefnogol a mwy cynhwysol
- dylanwadu ar ac ailsiapio cynnwys addysg feddygol, llwybrau hyfforddiant, cyflawni ac asesu.

Yn fewnol, byddwn yn ceisio:

- diwygio ac esblygu ffyrdd o weithio er mwyn gwella adferiad busnes, gan ddatblygu'r hyn a ddysgwyd a'r cynnydd wrth ymateb i'r pandemig
- hyrwyddo ffyrdd o weithio sy'n cynorthwyo diwylliant cynhwysol ac arloesedd
- ailsiapio ein hamgylchedd gwaith.

## Prif sialensiau

Byddwn yn wynebu sialensiau fel rheolydd ac fel cyflogwr hefyd, gan gynnwys:

- datblygu'r capasiti i ddarparu newid gweithredol a pholisi ar gyflymder a graddfa er mwyn manteisio ar y cyfle y mae diwygio deddfwriaethol yn ei gynnig
- ymateb i niferoedd cynyddol o ymchwiliadau cyhoeddus cymhleth ar yr un pryd
- cynnal cydweithio effeithiol gyda phartneriaid allweddol y mae eu capasiti a'u hymdrechion sefydliadol yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig
- cynnal momentwm gweithredol wrth i ni ddelio gyda phwysau ar lwyth gwaith sy'n deillio o'r pandemig
- sicrhau cydbwysedd rhwng y pwysau parhaus a'r effaith bosibl ar les ein cydweithwyr.

Mae ein dull gweithredu ar gyfer diogelwch cleifion trwy wrando, dysgu a pharhau i fod yn hyblyg yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Rydym yn teimlo'n hyderus am yr hyn yr hoffem ei gyflawni a'r trywydd a ddisgrifir yn ein strategaeth. Ond nid ydym yn hunanfodlon ynghylch maint yr her. Mae cryn dipyn o'r hyn a wnawn yn mynnu ein bod yn gweithio mewn ffordd sensitif a thosturiol gydag eraill os ydym yn mynd i ddylanwadu ar a sicrhau newid go iawn i gleifion a meddygon. Bydd y newid hwnnw yn digwydd ar y cyd gyda newidiadau ehangach a seismig mewn bywydau a gwerthoedd cymdeithasol, teuluol a gwaith. Rhaid i ni fyfyrio am hyn, ac fel eraill, gwrando, dysgu ac addasu os ydym yn mynd i barhau i gadw cleifion yn ddiogel, gan fod yn rheolydd uchel ei barch ac yn gyflogwr a werthfawrogir.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 9 Mehefin 2021 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

**Bonesig Clare Marx**
Cadeirydd y Cyngor

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r cwmni elusennol ar 31 Rhagfyr 2020 ac o adnoddau'r grŵp sy'n dod i mewn a gweithrediad ei adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno;
- wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005 a Rheoliadau 6 ac 8 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 (diwygiwyd).

## Sail dros y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn bod y dystiolaeth archwilio a sicrhawyd gennym yn ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail dros ein barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'r ISAs (DU) yn mynnu ein bod yn adrodd i chi yn eu cylch:

- pan na fydd defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail gyfrifyddu fel busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau yn briodol; neu
- pan na fydd yr ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a nodwyd ac y gallent godi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r grŵp neu'r elusen rhiant i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n ymddangos yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amdanynt. Nid yw'n barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y mynegir hynny yn glir yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n cynnig sicrwydd amdanynt.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall, a thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol mewn ffordd o bwys neu ei bod yn ymddangos bod ein gwybodaeth ni a sicrhawyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi cael ei chamfynegi mewn ffordd o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondebau o bwys o'r fath neu gamfynegiadau o bwys amlwg, mae gofyn i ni benderfynu a oes camfynegi o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamfynegi o bwys yn y wybodaeth arall. Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camfynegi o bwys o ran y wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a gynhaliwyd yn ystod ein harchwiliad

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwyswyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae gofyn i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwysir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle y mae Deddf Cwmnïau 2006 a Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 yn mynnu ein bod yn adrodd i chi:

- os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a chywir yn ein barn ni; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r adroddiadau a'r cofnodion cyfrifyddu yn ein barn ni; neu
- os na wneir datgeliadau penodol am dâl ymddiriedolwyr yn ein barn ni, y mae'r gyfraith yn nodi bod gofyn iddynt gael eu gwneud; neu
- os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 71, mae'r ymddiriedolwyr (y maent yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am deimlo'n fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn galluogi gweithgarwch i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu y grŵp neu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, pan fo hynny'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu dirwyn yr elusen i ben neu orffen gweithrediadau, neu os nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilydd dan adran 44(1)(c) Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005 a than Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a rheoliadau perthnasol a wnaethpwyd oddi tanynt neu sy'n cael effaith oddi tanynt.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o ran sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) wastad yn canfod camfynegi o bwys pan fydd yn bodoli. Gall achosion o gamfynegi ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn achosion o bwys pe byddai'n rhesymol disgwyl y byddent, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae modd gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

## Defnydd o'n hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006, ac i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rheoliad 10 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i aelodau ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a hynny heb fod am unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol, aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn, neu'r barnau yr ydym wedi'u ffurfio.

Naziar Hashemi
Archwilydd Statudol Uwch
Dros ac ar ran
Crowe U.K. LLP
Archwilydd Statudol
2il Lawr, 55 Ludgate Hill
Llundain
EC4M 7JW

# Cyfrifon 2020

## Datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020

| Incwm | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cyfanswm 2020 £'000 | Cyfanswm 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **O weithgareddau elusennol** | | | | | |
| Cofrestru | 2 | 103,042 | - | **103,042** | **103,258** |
| Cofrestriadau arbenigol a Meddygon Teulu | 2 | 4,052 | - | **4,052** | **3,828** |
| Ailddilysu | 2 | 54 | - | **54** | **173** |
| **Gweithgareddau masnachu eraill** | 3 | 193 | - | **193** | **264** |
| **Gweithrediadau masnachu masnachol** | 3 | 316 | - | **316** | **494** |
| **Buddsoddiadau** | 3 | 388 | - | **388** | **1,394** |
| **Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS *** | 3 | - | 1,577 | **1,577** | **220** |
| **Arall** | 3 | 242 | - | **242** | **400** |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn** | | 108,287 | 1,577 | **109,864** | **110,031** |
| **Gwariant** | | | | | |
| **Codi arian** | | | | | |
| Gweithrediadau masnachu masnachol | 5 | 302 | - | **302** | **473** |
| Costau rheoli buddsoddiadau | 5 | 221 | - | **221** | **142** |
| | | 523 | - | **523** | **615** |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | | |
| Addasrwydd i wneud gwaith meddygol | | 43,349 | - | **43,349** | **43,748** |
| Cofrestru ac ailddilysu | | 25,632 | - | **25,632** | **28,127** |
| Perthnasoedd allanol | | 15,269 | - | **15,269** | **16,435** |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol | | 11,387 | - | **11,387** | **12,971** |
| Addysg | | 10,112 | - | **10,112** | **10,392** |
| Safonau | | 1,776 | - | **1,776** | **1,880** |
| Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS | | - | 1,577 | **1,577** | **220** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant arall** | | | | | |
| Darpariaeth gyfreithiol | | 3,744 | - | **3,744** | **170** |
| **Cyfanswm y gwariant** | 5 | 111,792 | 1,577 | **113,369** | **114,558** |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 9 | 2,476 | - | **2,476** | **4,328** |
| **(Colled Net)/Incwm net** | | (1,029) | - | **(1,029)** | **(199)** |
| **Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| (Colled)/ennill actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 16 | (6,971) | - | **(6,971)** | **(24,826)** |
| **Symud net mewn cronfeydd** | | (8,000) | - | **(8,000)** | **(25,025)** |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 72,581 | - | **72,581** | **97,606** |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 64,581 | - | **64,581** | **72,581** |

Corfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachol yn ei lwyr berchnogaeth ar 16 Rhagfyr 2016, gyda'r diben o ddarparu gwasanaethau masnachol gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant ac achredu. Mae'r Elusen wedi manteisio ar eithriad rhag cyflwyno'i chyfrif elw a cholled anghyfunol. Y symudiad cronfeydd ar gyfer yr elusen yn ystod y flwyddyn yw £7,943,000.

* Darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) gyllid yn ystod 2020 er mwyn cychwyn ar y gwaith gweithredol er mwyn sicrhau bod cymdeithion meddygol proffesiynol (MAPs) yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Roedd natur y cyllid yn gyfyngedig, ac fe'i wariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn, felly yr effaith net ar gronfeydd wrth gefn CMC yw dim. Mae holl gronfeydd wrth gefn CMC ar ddiwedd y flwyddyn yn anghyfyngedig.

## Mantolen

| | | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Grŵp** | **Elusen** | Grŵp | Elusen |
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | 7 | 10,361 | 10,361 | 9,744 | 9,744 |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 8 | 7,519 | 7,519 | 9,254 | 9,254 |
| Asedau diriaethol sefydlog | 9 | 57,020 | 57,257 | 65,049 | 65,273 |
| Buddsoddiadau | | **74,900** | **75,137** | **84,047** | **84,271** |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | 10 | 23,349 | 23,303 | 21,149 | 21,045 |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | | 38,128 | 37,882 | 30,667 | 30,350 |
| Balansau banc ac arian | | **61,477** | **61,185** | **51,816** | **51,395** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau** | 11 | (71,067) | (71,012) | (71,394) | (71,197) |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | | | | | |
| | | (9,590) | (9,827) | (19,578) | (19,802) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | | **65,310** | **65,310** | **64,469** | **64,469** |
| **Cyfanswm yr asedau yn llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| | 12 | (4,717) | (4,717) | (1,279) | (1,279) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | | | | | |
| | | **60,593** | **60,593** | **63,190** | **63,190** |
| **Asedau net heb gynnwys ased y cynllun pensiwn** | | | | | |
| | 16 | 3,988 | 3,988 | 9,391 | 9,391 |
| Ased cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | | **64,581** | **64,581** | **72,581** | **72,581** |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | | | | |
| | | | | | |
| Cronfa wrth gefn pensiynau | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd** | | | | | |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr ymddiriedolwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 9 Mehefin 2021. Fe'u llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr gan:

**Bonesig Clare Marx**
Cadeirydd y Cyngor

## Datganiad llif arian cyfunol

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol:** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Arian net a ddarparwyd gan/(defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol (nodyn i isod)** | | 14,064 | | 1,335 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi:** | | | | |
| Difidendau, llog a rhenti gan fuddsoddiadau | 180 | | 443 | |
| Prynu eiddo, cyfarpar, offer ac eitemau annirweddol | (6,783) | | (12,074) | |
| **Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | **(6,603)** | | **(11,631)** |
| **Newid mewn arian a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | | **7,461** | | **(10,296)** |

**Nodyn (i)**

| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | |
|---|---|---|
| Adnoddau net sy'n dod i mewn/(mynd allan) | (1,029) | (199) |
| Incwm buddsoddi a llog | (388) | (1,394) |
| Symud buddsoddi net | 8,029 | (4,291) |
| Eitemau anariannol – dibrisiant ac amorteiddio | 7,854 | 7,415 |
| Eitemau anariannol – asedau a ddilëwyd | 47 | 26 |
| Cost a byrhad pensiwn am y gwasanaeth a roddwyd | - | - |
| Cost gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn | - | - |
| Cyfraniad i'r cynllun pensiwn | (1,360) | (1,959) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr | (2,200) | (1,853) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | 3,111 | 3,590 |
| **Arian net a ddarparwyd gan (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol** | **14,064** | **1,335** |

**Nodyn (ii)**

| **Arian a chyfwerthoedd** | **Blaendaliadau tymor byr £'000** | **Arian yn y banc ac mewn llaw £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|
| Balansau ar 1 Ionawr 2020 | - | 30,667 | **30,667** |
| Gostyngiad net mewn arian a chyfwerthoedd arian | - | 7,461 | **7,461** |
| **Balansau ar 31 Rhagfyr 2020** | - | 38,128 | **38,128** |

Datgelir y ffurflen gyfreithiol a swyddfa gofrestredig CMC yn adran Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio yr adroddiad hwn.

## 1. Prif bolisïau cyfrifyddu

(i) Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol er mwyn cynnig darlun 'cywir a theg' ac maent wedi gwyro o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol er mwyn darparu darlun 'cywir a theg'. Mae'r gwyriad hwn wedi cynnwys dilyn y SORP Elusennau (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014, yn hytrach na Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a oedd mewn grym o 1 Ebrill 2005 ac y mae bellach wedi cael ei dynnu'n ôl.

Paratowyd ein datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac yn unol â'r Datganiad Elusennau o'r Arfer a Argymhellir (FRS 102), sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, Deddf Elusennau 2011, Charities and Trustee Investment (Scotland) 2005, Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 a'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU sy'n berthnasol o 1 Ionawr 2015. Mae CMC yn bodloni diffiniad 'endid er budd y cyhoedd' dan FRS 102.

Adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, mae'r coronafeirws (COVID-19) yn parhau i ddatblygu ac mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi ei ddynodi yn bandemig byd-eang. Daw mwyafrif ein hincwm o'r ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg gofrestru gyda ni er mwyn gwneud gwaith meddygol yn y DU, felly mae'n hincwm yn gymharol sicr. Er gwaethaf yr amgylchiadau presennol, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod o'r farn bod CMC yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld, ac ni cheir unrhyw ansicrwydd o bwys ynghylch gallu yr elusen i barhau fel busnes gweithredol.

(ii) Ar 16 Rhagfyr 2016, corfforodd CMC is-gwmni masnachol, Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd, rhif cwmni 10530157, sy'n eiddo i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn llwyr ar ffurf cyfalaf cyfrannau.

(iii) Isod, nodir manylion y prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a weithredwyd mewn ffordd gyson.

### Adnoddau sy'n dod i mewn

Caiff incwm ei gynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol.

- Hawl – rheolaeth dros yr hawliau neu fynediad arall er budd economaidd wedi'i drosglwyddo i CMC
- Tebygolrwydd – mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd y buddion economaidd yn llifo i CMC
- Mesur – mae modd mesur y gwerth mewn ffordd ddibynadwy.

Mae'r polisïau penodol canlynol yn berthnasol.

- Mae taliadau cadw blynyddol yn ymwneud â gwasanaethau i'w darparu dros gyfnod o 12 mis. Caiff incwm ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef.
- Caiff ffioedd cofrestru, gan gynnwys ffioedd cofrestru amodol, eu cydnabod pan ddyfarnir cofrestriad.

- Caiff ffioedd y Bwrdd Asesiadau Ieithyddol a Phroffesiynol (PLAB) eu cydnabod pan fydd arholiadau'n cael eu sefyll.
- Caiff incwm gan fuddsoddiadau a chronfeydd a gedwir ar adnau ei gydnabod pan fydd yn dderbyniadwy ac mae modd mesur y swm yn fanwl.

Cydnabyddir yr holl incwm fel incwm gros.

### Y sail ar gyfer cydnabod rhwymedigaethau

Mae gwariant yn cynnwys costau staffio, costau swyddfa, costau pwyllgor, costau cyfreithiol, costau llety, prynu asedau a chostau ariannol, actiwaraidd a phroffesiynol.

Caiff adnoddau a ddefnyddiwyd eu cynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail groniadol. Cydnabyddir yr holl rwymedigaethau cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant.

### Y sail ar gyfer neilltuo adnoddau i'w defnyddio

Caiff mwyafrif ein hadnoddau eu gwario yn uniongyrchol wrth ganlyn ein nodau elusennol, ac fe'u nodir felly yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff costau llety, costau llywodraethu a chostau cymorth eraill eu dosbarthu i weithgareddau elusennol ar sail cyfrifiad o'r staff ar draws y sefydliad.

### TAW anadferadwy

Caiff unrhyw TAW anadferadwy ei godi ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol fel rhan o eitem berthnasol y gwariant, neu caiff ei gyfalafu fel rhan o gost yr ased cysylltiedig pan fo hynny'n briodol.

### Treth

Gallwn fanteisio ar yr eithriadau rhag treth ar incwm ac enillion sydd ar gael i elusennau, felly ni chaiff unrhyw dreth ei thalu ar yr adnoddau net sy'n dod i mewn.

### Dyledwyr

Fel arfer, caiff dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill eu cydnabod yn unol â'r swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnachu a gynigir.  Fel arfer, caiff rhagdaliadau eu prisio yn unol â'r swm a ragdalwyd sy'n net o unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Credydwyr a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Fe'u cydnabyddir pan fydd hi'n debygol y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.  Fel arfer, caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod yn unol â'u swm setlo ar ôl ystyried unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

### Barnau cyfrifyddu allweddol a ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif

Mae ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif sy'n cael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

- Adolygir yr holl hawliadau am gostau cyfreithiol a wneir yn erbyn CMC, ac nad ydynt wedi cael eu setlo, fesul achos ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff darpariaethau eu seilio ar brofiad hanesyddol ac asesiad manwl o fanylion penodol achosion cyfredol. Mae setliad terfynol achosion yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, felly mae cywirdeb y ddarpariaeth yn destun swm sylweddol o ansicrwydd.
- Caiff darpariaethau ar gyfer costau adfeilio eiddo eu hasesu fesul achos, yn agos at y dyddiad pan fydd y brydles yn dod i ben a phan fydd modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r costau.
- Mae darpariaethau ar gyfer tâl gwyliau yn seiliedig ar lefel go iawn y diwrnodau cronedig a chyflogau pob aelod o staff.

### Asedau diriaethol sefydlog

Caiff asedau diriaethol sefydlog eu datgan yn ôl y gost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### Asedau anniriaethol sefydlog

Mae asedau anniriaethol sefydlog yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol. Fe'u nodir yn ôl eu cost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### Dibrisiant

Darparir dibrisiant er mwyn dileu cost, yn llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, yr asedau mewn ffordd gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn achos asedau dan brydles, caiff y gost ei dileu dros gyfnod y brydles. Pennir cyfnod y brydles fel y cyfnod nes y cymal terfynu cyntaf, oni bai nad ydym yn bwriadu arfer y terfynu.

Mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

- Adeiladau lesddaliadol a gwelliannau lesddaliadol – cyfnod y brydles neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased.
- Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau swyddfa – pum mlynedd neu gyfnod y brydles sy'n weddill, pa un bynnag yw'r lleiaf.
- Offer Technoleg Gwybodaeth (TG) a meddalwedd – tair blynedd.
- Asedau anniriaethol: (meddalwedd TG) – tair blynedd.
- Offer swyddfa arall – tair blynedd ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig â TG a phum mlynedd ar gyfer yr holl eitemau eraill.

Adolygir cyfraddau dibrisiant yn rheolaidd, gan gymharu hyd oes go iawn asedau gyda'r cyfraddau yn y polisi cyfrifyddu.

### Prydlesi gweithredol

Codir y rhent sy'n daladwy dan brydlesi gweithredol ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### Offerynnau ariannol

Mae gan yr elusen asedau a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n eu gwneud yn gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl eu gwerth trafod yn y lle cyntaf a'u mesur yn ôl y gost wedi'u hamorteiddio wedi hyn. Mae asedau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian a balansau yn y banc, adneuon tymor byr, buddsoddiadau sy'n cael eu dal mewn adneuon arian gyda masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys masnach a chredydwyr eraill, credydwyr nawdd cymdeithasol a threth a chroniadau.

### Buddsoddiadau

